

Adroddiad ar Droseddau Casineb
2018-19

Cynnwys

Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.....	3
Cyflwyniad	5
Hil a chrefydd	10
Troseddau casineb homoffobig, deuffobig a thrawsffobig	14
Troseddau Casineb ar sail anabledd	16
Ysgogi casineb	20
Troseddau yn erbyn pobl hŷn	22
Adroddiad Data ar Droseddau Casineb	24
Atodiad 1	54
Geirfa ac acronymau	65

Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus



Gall troseddau casineb arwain at ganlyniadau arbennig o niweidiol oherwydd bod unigolion yn cael eu targedu'n seiliedig ar ran annatod o bwy ydynt, p'un a bod hynny yn hil, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth trawsrywiol.

Gall y troseddau yma hefyd dreiddio drwy gymunedau sydd yn rhannu'r un nodweddion personol, gan ledaenu ofn a thanseilio teimlad o ddiogelwch.

Mewn achosion o droseddau casineb gallwn ofyn i'r llys am ddedfryd estynedig er mwyn adlewyrchu'r lefel ychwanegol o ddirifoldeb. Gelwir hyn yn ymgodiad dedfryd. Yn 2018-19, cyrhaeddodd nifer yr euogfarnau pan gyhoeddodd y llys ymgodiad dedfryd i'w lefel uchaf erioed, sef 73.6%. Mae hynny yn anfon neges glir na fydd targedu rhywun oherwydd pwy ydyw yn cael ei oddef, ac y dylent ddisgwyl derbyn dedfryd uwch.

Mae'r adroddiad yma yn dangos y gwelliannau yr ydym wedi eu gwneud mewn perthynas â pherfformiad erlyn, yn ogystal â chamau yr ydym wedi eu cymryd i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid. Er enghraifft, rhoddodd CPS dystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Ferched a Chydraddoldeb i wrth-semitiaeth, a bu i ni rannu ein gwybodaeth, ymrwymiad ac arbenigedd o ran taclo'r math yma o droseddu. Mae gwaith Ardaloedd CPS yn parhau i gael cymorth sylweddol gan y Paneli Craffu a Chyfranogi Lleol, sydd yn cynnwys unigolion a sefydliadau sydd yn rhannu amrywiaeth o brofiadau ac arbenigedd mewn perthynas â throseddau casineb, ac sydd yn cynnig llygaid beirniadol mewn perthynas ag ansawdd ein gwaith achos. Mae ein Strategaeth Cynhwysiant a Chymuned newydd wedi atgyfnerthu ein hymgysylltiad â chymunedau lleol, gydag ymarferiad mapio manwl o gymunedau lleol a 'Sgyrsiau Cymunedol' mwy penodol yn cael eu cynnal o gwmpas y wlad. Cyfarfu'r Grŵp Ymgynghori Allanol ar Droseddau Casineb am y tro cyntaf yn Rhagfyr 2018, ac mae wedi addalu'n gyflym am ein hyder yn lefel ac ystod y cymorth y mae'r aelodau wedi gallu ei roi i'n gwaith o geisio gwell deilliannau i ddiodefwyr a ffyrdd mwy effeithiol o ddelio ag achosion.

Ond, mae'r bwlch cynyddol rhwng nifer yr achosion o droseddau casineb a riportir i'r heddlu a nifer yr achosion a anfonir gan yr heddlu i'r CPS ar gyfer eu herlyn yn achos pryder i bawb ohonom. Felly rydym yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn yr heddlu, yn genedlaethol a lleol, er mwyn deall y rhesymau am y gostyngiad yma yn nifer yr achosion a anfonir gan yr heddlu.

Dyma'r adroddiad cyntaf ar Droseddau Casineb ers i mi ddod yn Gyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn Nhachwedd 2018. Un o fy amcanion yw cynyddu tryloywder ac atebolrwydd am berfformiad erlyn y CPS. Felly, yn y dyfodol bydd data troseddau casineb y cael ei gyhoeddi'n chwarterol gyda naratif ategol ar gynnydd, fydd yn cynnig cyfleoedd mwy rheolaidd ar gyfer trafodaethau gyda rhanddeiliaid gaiff eu hysbysu gan y dystiolaeth fwyaf diweddar, tra'n helpu pob un ohonom i fod yn hyblyg wrth ymateb i dueddiadau newidiol, heriau newydd a thystiolaeth newydd.

Max Hill QC

Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Arweinydd Troseddau Casineb - Prif Erlynydd y Goron Chris Long



Mae'r CPS yn ymdrin o ddifri â throseddau casineb, ac rydym yn benderfynol o sicrhau bod troseddwr yn wynebu cyfiawnder. Yn 2018-19 bu i ni weithio gyda'n partneriaid yn yr heddlu er mwyn ceisio deall pam fod nifer yr achosion a atgyfeiriwyd i'r CPS wedi gostwng, ac er mwyn annog atgyfeirio achosion priodol i'r CPS ar gyfer cyhuddo ac erlyn. Mae hwn yn ddarn o waith eithriadol o bwysig oherwydd mai dim ond yr achosion a atgyfeirir atom y gall y CPS eu herlyn.

Rydym wedi parhau i gydweithredu â Rhwydwaith Cydlynwyr Troseddau Casineb (HCC), sydd yn cynnwys HCCau a Rheolwyr Cynhwysiant ac Ymgysylltu Cymunedol. Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd gyda phob Ardal CPS, roedd yr adborth yn awgrymu y byddai mwy o gyfarfodydd Rhwydwaith wyneb yn wyneb yn cael ei gwerthfawrogi. Felly, yn ystod y flwyddyn rydym wedi newid o ddau i dri digwyddiad blynyddol ble rydym yn parhau i rannu arfer dda, a cheisio canfod atebion i heriau cyffredin.

Yn dilyn trafodaethau arferol gyda sefydliadau adrodd trydydd parti, penderfynwyd cynnig gweithdai i asiantaethau cenedlaethol fyddai'n darparu cyngor a chymorth i gleientiaid sydd wedi dioddef troseddau casineb. Mynychwyd y gweithdai gan yr Ymddiriedolaeth Diogelwch Cymunedol, Tell MAMA, Galop, Stop Hate UK, asiantaethau sydd yn rhoi cyngor i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a sefydliadau sydd yn gweithio gyda'r gymuned Sikh. Roedd y sesiynau yn canolbwyntio ar y gyfraith mewn perthynas â throseddau casineb ac ymarfer y CPS, gan egluro ac arddangos elfennau allweddol o'r gyfraith a chanllawiau CPS. Y nod oedd sicrhau mwy o ymwybyddiaeth o'r gyfraith a sut mae'n cael ei chymhwyso er mwyn gwella'r gwasanaeth y mae'r sefydliadau yma yn ei ddarparu i'r cleientiaid sydd yn gofyn am eu cymorth.

Rwyf yn falch o gadeirio cyfarfodydd Grŵp Ymgynghori Allanol (ECG) CPS ar droseddau casineb. Mae'r ECG wedi darparu mewnwelediad ac arbenigedd ar ystod eang o destunau y cytunwyd arnynt ar gyfer trafodaeth, yn cynnwys adolygiad Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth Troseddau Casineb, Cynllun Sicrwydd Troseddau Casineb, Strategaeth a Chynlluniau Gweithredu Troseddau Casineb, y defnydd o Gyfiawnder Adferol mewn perthynas â Throseddau Casineb, gwella ymwybyddiaeth o droseddau casineb a chynyddu riportio, croestoriad mewn troseddau casineb a defnyddio Datganiadau o Effaith ar Gymuned er mwyn ategu dealltwriaeth ehangach o effaith troseddau casineb ar gymunedau.

Drwy'r ymgysylltu a'r craffu allanol yma y gallwn sicrhau bod ein polisïau, ymarferion a'n dulliau yn gallu cyflawni cyfiawnder i ddiodefwyr troseddau casineb. Rwyf yn hyderus y bydd y berthynas adeiladol yma gyda grwpiau cymunedol yn parhau i'n helpu i wella yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Ni ddylai unrhyw un y ein cymdeithas gael eu targedu oherwydd pwy ydynt. Rwyf yn falch o'r cynnydd y mae CPS wedi ei wneud o ran erlyn troseddau casineb ac rwyf yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'n partneriaid a rhanddeiliaid er mwyn gwella mwy ar sut mae troseddau casineb yn cael eu tacio a meithrin hyder ein cymunedau.

Chris Long
Prif Erlynydd y Goron

Adroddiad ar Droseddau Casineb

Cyflwyniad

Mae Troseddau Casineb yn arwain at effeithiau niweidiol ar ddiodefwr, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Nid oes dim lle i'r math yma o droseddau yn ein cymdeithas. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn ymdrin yn ddifrifol â throseddau casineb ac mae'n parhau i sicrhau bod troseddwr yn wynebu cyfiawnder pryd bynnag fo hynny yn bosibl.

Mae adroddiad ar Droseddau Casineb y CPS ar gyfer 2018-19 yn ddadansoddiad o sut mae'r CPS wedi perfformio ym mhob maes o droseddau casineb - troseddau casineb ar sail anabledd, troseddau casineb homoffobig, deuffobig a thrawsffobig a throseddau casineb ar sail crefydd - yn ogystal â throseddau cymell casineb a throseddau yn erbyn pobl hŷn.

Mae'r adroddiad yn darparu asesiad o berfformiad erlyn mewn perthynas â throseddau sydd yn bodloni diffiniad cytunedig Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) a'r CPS o droseddau casineb:

“Unrhyw drosedd y mae'r dioddefwr neu unrhyw berson arall yn ystyried sydd wedi ei chymell gan agwedd elyniaethus neu ragfarn yn seiliedig ar hil neu hil ymddangosiadol unigolyn; crefydd neu grefydd ymddangosiadol, cyfeiriadedd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol ymddangosiadol; anabledd neu anabledd ymddangosiadol ac unrhyw drosedd sydd wedi ei chymell gan agwedd elyniaethus neu ragfarn yn erbyn person sydd yn drawsrywiol neu y tybir sydd yn drawsrywiol.”

Pwrpas yr adroddiad yma yw i'r CPS fod yn dryloyw ynghylch y data yr ydym yn ei ddal a galluogi ein rhanddeiliad i sicrhau ein bod yn atebol. Mae pob adran o'r adroddiad yma yn darparu data allweddol, sylwebaeth ac astudiaethau achos, yn ogystal ag amlinelliad o weithgaredd y CPS yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd yn ystod y flwyddyn sydd i ddod er mwyn gwella'n barhaus. Mae adran ddata yr adroddiad yn darparu mwy o wybodaeth fanwl yn ôl pob maes o droseddau casineb, cymell casineb a throseddau yn erbyn pobl hŷn. Mae'r eirfa yn darparu diffiniadau llawnach o bob un o'r meysydd troseddau casineb a therminoleg y CPS.

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar ddata gan System Reoli Achosion y CPS, System Reoli Tystion y CPS a'r System Wybodaeth Reoli gysylltiedig. Nid yw'r data yma yn ystadegau swyddogol fel y diffinnir hynny yn Neddf Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007¹ a dylid eu darllen yn unol â'n disgrifiad o'r data.

Sylwer os gwelwch yn dda: Mae terminoleg fanylach, amlinelliad o brosesau'r heddlu/CPS ac eglurhad o'r data, ac unrhyw newidiadau mewn cyfrifiadau neu dermau a ddefnyddir, yn cael eu hamlinellu yn [adran data yr adroddiad yma](#). Mae [data tanategol yr adroddiad yma](#) ar gael ar wefan CPS, yn yr adran Cyhoeddiadau.² Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu sylwadau, e-bostiwrch: HateCrime.Policy@cps.gov.uk.

¹ Mae'r ystadegau swyddogol mewn perthynas â throseddau a phlisma yn cael eu cynnal gan y Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac mae'r ystadegau swyddogol mewn perthynas â dedfrydu, achosion llys troseddol, troseddwr sy'n wynebu cyfiawnder, y llysoedd a'r farnwriaeth yn cael eu cynnal gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

² Adroddir ar ddata yn yr adroddiad hwn drwyddo draw, a darperir unrhyw ddata tanategol ychwanegol ar wefan CPS.

Hwn fydd yr adroddiad ar Droseddau Casineb olaf o'i fath. Yn 2019-20 bydd CPS yn newid i adrodd ar ddata yn chwarterol, a thrwy hynny bydd yn darparu'r data rheoli mwyaf cyfredol yn gyflymach. Hefyd bydd adroddiad blynyddol cryno yn cael ei ddarparu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Cyd-destun Strategol

Ym mis Hydref 2018, lanswyd strategaeth trawslywodraethol wedi ei diweddarau – [Gweithredu yn Erbyn Casineb: Cynllun Llywodraeth y DU i Daclo Troseddau Casineb](#) – oedd yn amlinellu'r camau diweddaraf yr oedd y Llywodraeth yn eu cymryd. Mae gan y CPS rôl bwysig mewn amrywiaeth o fentrau'r System Cyfiawnder Troseddol (CJS), gaiff eu goruchwyllo gan Fwrdd Strategol Troseddau Casineb (bwrdd traws asiantaethau sydd yn gyfrifol am oruchwyllo cynnydd).


Mae'r CPS yn gweithio gyda'r Heddlu er mwyn deall y rhesymau dros y gostyngiad mewn achosion o droseddau casineb a gyflwynir gan y heddlu i'r CPS, yn ogystal â gwella'r broses o ymchwilio i droseddau casineb a'u riportio. Mae heddluoedd lleol yn gweithio gydag Ardaloedd CPS er mwyn gwella dealltwriaeth o'r gostyngiad yma mewn derbyniadau.

Er mwyn ategu ei ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth ag eraill, mae'r CPS hefyd wedi ymgymryd â'r canlynol:

- Cyfrannu at is-grŵp y Bwrdd Strategaeth Troseddau Casineb gan ganolbwyntio ar ddiodefwyr, yn cynnwys adnabod a riportio troseddau casineb, cymorth i ddiodefwyr ac adnabod unrhyw fylchau mewn darpariaeth;
- Gweithio mewn partneriaeth â'r MoJ er mwyn sicrhau bod y gwaith o gofnodi ymgodiadau dedfrydau yn cael ei wneud yn systematig gan y llysoedd yn yr holl achosion pan ganfyddir bod y diffynnydd yn euog neu ei fod yn pledio'n euog o gyflawni trosedd casineb, ac wedi parhau i weithio gyda phartneriaid eraill er mwyn gwella'r broses o gasglu data yn cynnwys y Swyddfa Gartref er mwyn sicrhau bod data o'r fath yn cael ei drosglwyddo i Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC);
- Wedi parhau i weithio gyda'r heddlu er mwyn sicrhau bod data cydraddoldeb yn cael ei gasglu'n briodol mewn perthynas â diodefwyr, tystion a diffynnyddion;
- Cefnogi menter y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MCLG) er mwyn ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r gymuned Sikh;
- Cyfrannu at [Gynllun Gweithredu LGBT: Gwella Bywydau Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol](#) trawslywodraethol;
- Ymateb i ymgynghoriad [Papur Gwyn Niwed Ar-lein](#) a gyhoeddwyd gan ar Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Swyddfa Gartref.

Mae'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer troseddau casineb, i raddau helaeth, yn cael ei ddarparu gan Ddeddf Troseddu ac Anhrefn 1998 a Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Y gair allweddol yn niffiniad ar y cyd NPCC a CPS a'r fframwaith cyfreithiol yw "gelyniaeth", sydd yn air a ddefnyddir yn ei ystyr arferol bob dydd. Felly nid oes angen i'r erlyniad brofi mai *casineb* yw'r ffactor cymhellol sydd yn sail i'r drosedd (bydd hynny ond yn gymwys mewn perthynas â chymell troseddau casineb). Ac nid oes raid i elyniaeth fod yn gymhelliad i'r holl drosedd. Gall fod yr unig reswm am y drosedd, ond i'r un graddau gall cymhelliad o'r fath chwarae rhan neu ddarparu un elfen yn unig o'r ymddygiad troseddol.

Mae'r gyfraith yn gosod dyletswydd ar y llysoedd i drin trosedd yn fwy difrifol pan mai gelyniaeth yw'r cymhelliad, neu pan ddangosir gelyniaeth tuag at hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth trawsrywiol neu anabledd y dioddefwr. Gelwir y gosb estynedig yma yn 'ymgodi dedfryd'.



Byddwn yn parhau i weithio ar draws y llywodraeth, gyda sefydliadau trydydd parti arbenigol a dioddefwyr eu hunain, drwy ein Paneli Craffu a Chyfranogi Lleol, ein Paneli Craffu Cenedlaethol ar droseddau casineb a'n Grŵp Ymgynghori Allanol ar droseddau casineb, er mwyn helpu i wella polisi ac ymarfer.

Yn Ebrill 2020, bydd y CPS yn cyhoeddi ei strategaeth newydd, 'CPS 2025'. Bydd y strategaeth hon yn nodi ein gweledigaeth a'n hamcanion ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Bydd amcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth CPS yn cael eu hintegreiddio i'r fframwaith strategol troswaol yma, a thrwy ein cylch cynllunio busnes ac adrodd blynyddol, bydd y CPS yn adrodd ar y cynnydd a wneir yn erbyn pob un o'n hamcanion strategol.

Cyd-destun gweithredol

Mae [Adroddiad Blynyddol y CPS 2018-19](#) yn dangos bod cyfanswm yr achosion a anfonir i'r CPS gan yr heddlu am benderfyniad ynghylch cyhuddo wedi gostwng 8.2%, o 283,162 yn 2017-18 i 260,050 yn 2018-19. Yn achos troseddau casineb, mae nifer yr achosion a anfonir i'r CPS gan yr heddlu wedi gostwng 16.7% o 12,901 yn 2017-18 i 10,749 yn 2018-19; eleni gwelwyd y gostyngiad blynyddol mwyaf yn nifer y troseddau casineb a dderbyniwyd gan yr heddlu, sef 16.7%. Mae nifer y derbyniadau yma gan yr heddlu wedi parhau i ostwng ers 2014-15. Yn ystod y cyfnod yma bu gostyngiad o 31.4%.

Mae'r CPS yn sefydliad a arweinir gan alw; gallwn ond ystyried achosion a anfonir atom gan yr heddlu neu arolygwyr eraill. Mae angen i'r gostyngiad yn niferoedd y troseddau casineb gael ei osod yng nghyd-destun y gostyngiad cyffredinol mewn niferoedd ar draws y CPS, yn arbennig y gostyngiad yn niferoedd y bobl a ddrwgdybir y mae'r heddlu wedi eu hanfon atom am benderfyniad ynghylch

dedfrydu.

Yn lleol, mae Ardaloedd CPS wedi blaenoriaethu cyswllt â'r heddluoedd lleol er mwyn archwilio'r rhesymau am y gostyngiad mewn derbyniadau gan yr heddlu yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae'r ffocws wedi bod ar gynnal ymarferion samplu ffeiliau ar y cyd er mwyn asesu a ddylai achosion fod wedi cael eu cyflwyno i'r CPS am benderfyniad ynghylch cyhuddo. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y mater yma y flwyddyn nesaf.

Mae'n rhaid i'r CPS barhau i gael adnoddau er mwyn delio ag effaith newidiadau i gyd-destun troseddau a'r system cyfiawnder troseddol. Mae ein gwaith yn rhan ganolog o strategaethau diogelwch a chyfiawnder y Llywodraeth, felly bydd newidiadau i'r System Cyfiawnder Troseddol yn effeithio ar y CPS.

Y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron

Cyhoeddwyd argraffiad newydd o'r [Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron](#) (y Cod) ym mis Hydref 2018. Mae'r Cod yn nodi sut y mae'n rhaid i bob achos troseddol basio prawf dau gam cyn y cyhuddir unigolyn:

- i ddechrau, a yw'r dystiolaeth yn cynnig gobaith realistig o sicrhau euogfarn; ac
- yn ail, a yw erlyn er lles y cyhoedd?

Mae'r Cod yn greiddiol i unrhyw achos yr ydym yn delio ag ef, felly mae'n hanfodol ei fod yn esblygu er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith a'r gymdeithas. Mae'r argraffiad yma yn darparu mwy o eglurder ynghylch gofynion datgelu cyn cyhuddo am y tro cyntaf; mae'r Cod yn nodi bod raid i erlynwyr ystyried a yw'r heddlu yn dal unrhyw ddeunydd neu a allai unrhyw ddeunydd fod ar gael allai effeithio ar y penderfyniad i gyhuddo rhywun a ddrwgdybir o drosedd. Mae hefyd yn egluro'r Prawf Trothwy, sydd yn caniatáu i rywun a ddrwgdybir sydd yn achosi risg mechniaeth sylweddol, megis risg difrifol o niwed i'r cyhoedd, gael ei gyhuddo gan ddisgwyl y bydd mwy o dystiolaeth yn cael ei gynhyrchu gan yr heddlu. Rydym wedi symleiddio'r prawf er mwyn sicrhau ei fod ond yn cael ei gymhwyso pan fo angen ac nad yw achosion yn cael eu cyhuddo'n rhy gynnar.

Yn 4.14c, mae'r Cod yn mynd ymlaen i nodi:

“Mae'n fwy tebygol y bydd angen erlyn os mai'r cymhelliad am y drosedd oedd unrhyw fath o ragfarn yn erbyn tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, anabledd, oedran, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd gwirioneddol neu dybiedig y dioddefwr; neu os bu i'r un a ddrwgdybir dargeddu neu gamfanteisio ar y dioddefwr, neu ddangos gelyniaeth tuag at y dioddefwr, yn seiliedig ar unrhyw un o'r nodweddion hynny”.

Data a dadansoddiad allweddol y CPS

- Bu gostyngiad o 16.7% yn nifer yr achosion a anfonwyd i'r CPS gan yr heddlu o 12,901 yn 2017-18 i 10,749 yn 2018-19.
- Gostyngodd nifer y penderfyniadau cyn cyhuddo o 13,518 yn 2017-18 i 11,826 yn 2018-19.

- Gostyngodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd o 14,151 yn 2017-18 i 12,828 yn 2018-19; gostyngiad o 1,323 (9.3%).
- Arhosodd canran yr euogfarnau yn gyson ar 84.3%.
- Bu cynnydd bychan yng nghyfran yr achosion oedd yn cynnwys pledion euog o 75.4% yn 2017-18 i 76.1% yn 2018-19.
- Roedd cyfran yr achosion a arweiniodd ar euogfarn gydag ymgodiad dedfryd wedi ei gyhoeddi a'i gofnodi yn 73.6% yn 2018-19, oedd yn gynydd o 6.5 o bwyntiau canran ers y flwyddyn flaenorol.

Mae camau wedi cael eu cymryd er mwyn gwella perfformiad erlyn

Cwblhaodd y CPS ei raglen hyfforddi wyneb yn wyneb mandadol ar gyfer yr holl erlynwyr yn ystod 2015-18, oedd yn cynnwys troseddau casineb ar sail anabledd, hil a chrefydd a throseddau casineb homoffobig, deuffobig a thrawsffobig. Datblygwyd y pecynnau hyfforddiant gyda chymorth rhanddeiliaid ac maent yn ymdrin â rhwystrau rhag riportio a safbwynt y dioddefwr.

Cyflwynodd y CPS gynllun Sicrwydd Troseddau Casineb yn 2015 ar gyfer Ardaloedd CPS er mwyn darparu sicrwydd ynghylch perfformiad Troseddau Casineb. Gellir gweld tystiolaeth bod y cynllun sicrwydd yn ysgogi gwelliannau mewn perfformiad rheng flaen yng nghyfran yr achosion llwyddiannus sydd ag ymgodiad dedfryd a gyhoeddwyd ac a gofnodwyd, sydd wedi codi o 12.1% yn 2014-15 i 73.6% yn 2018-19. Canolbwyntiwyd yn benodol ar y gwiriadau misol a chydnabu adolygiad thematig y Cyd Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol ar droseddau casineb seiliedig ar anabledd (2018) bod ansawdd gwaith sicrwydd y CPS yn gryfder. Yn 2018, adolygwyd y cynllun er mwyn datblygu system riportio oedd yn canolbwyntio ar reoli risgiau sefydliadol allweddol mewn perthynas â throseddau casineb, sef yr agen i:

- Feithrin partneriaethau effeithiol gyda'r heddlu er mwyn sicrhau bod achosion troseddau casineb yn cael eu cyfeirio a'u cyhuddo yn briodol;
- Parhau i ymgysylltu â chymunedau lleol ac adrodd ar achosion troseddau casineb llwyddiannus;
- Sicrhau bod yna strategaeth achosion clir yn cael ei sefydlu'n gynnar a bod dilyniant a'r broses o gyflwyno achoson yn gydnerth ac effeithiol;
- Sicrhau bod camau yn cael eu cymryd yn gynnar er mwyn sicrhau cymorth i ddioddefwyr.

Yn 2018-19 aeth y tîm polisi troseddu casineb ar gyfres o ymweliadau i Ardaloedd CPS er mwyn nodi'r heriau mewn perthynas ag erlyn troseddau casineb a cheisio adborth ar gymorth canolog. Daeth y rhaglen o ymweliadau i ben yn Awst 2019 a nododd enghreifftiau niferus o arferion gorau mewn perthynas â gweithredu cyfundrefn sicrwydd troseddau casineb a'r strategaeth ymgysylltu cymunedol. Mae hynny wedi arwain at argymell nifer o gamau fydd yn cael eu rhoi ar waith gyda Phrif Erlynwyr y Goron o Ardaloedd CPS.

Blaenoriaethau i'r Dyfodol

- Mae pecyn hyfforddi newydd wedi cael ei gomisiynu er mwyn cyfuno a diweddarau deunydd hyfforddi wyneb yn wyneb sydd eisoes yn bodoli ar bob maes o droseddau casineb er mwyn

sicrhau bod gennym becyn priodol ar gyfer newydd-ddyfodiaid a diweddariadau er mwyn sicrhau bod momentwm yn cael ei gynnal;

- Mae'r CPS yn cyfrannu at waith y Coleg Plismona er mwyn diweddarau Canllawiau Gweithredol ar Droseddu Casineb. Disgwylir y bydd y canllawiau newydd ar gael cyn diwedd 2019;
- Mae'r CPS yn dal yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid er mwyn gwella ystod a chywirdeb data a gasglwyd mewn perthynas â dioddefwyr, tystion a diffynyddion. Rydym yn gweithio ag eraill er mwyn harneisio buddion gweithio'n ddigidol i'r dyfodol, gan geisio ffyrdd ymarferol ac effeithiol o gefnogi'r ymateb ymchwiliol i droseddau casineb er mwyn cynnal proses gydnerth o adeiladu achosion a chefnogi dioddefwyr;
- Mae Comisiwn y Gyfraith wedi cyhoeddi adolygiad eang o deddfwriaeth troseddau casineb. Bydd yr adolygiad yn adrodd yn 2021, ond disgwylir y bydd ymgynghoriad yn dechrau yn ystod gwanwyn 2020. Mae'r CPS yn ymrwmo i ymgysylltu â'r adolygiad pwysig yma ac i gyfrannu ato, drwy rannu ein profiadau o'r heriau o ran erlyn troseddau casineb a helpu i ganfod ffyrdd o wella'r gyfraith.

Hil a chrefydd

Cyd-destun

Dechreuodd yr arferiad o riportio troseddau casineb seiliedig ar hil a chrefydd ar wahân yn 2010-11. Cyn hynny roedd y data yn gyfun. Ar system reoli achosion digidol y CPS gellir nodi bod achosion yn seiliedig ar hil neu grefydd, neu'r ddau pan fo tystiolaeth briodol ar gael.

Mae clustnodi ac asesu'r dystiolaeth o elyniaeth sydd ar gael yn gywir er mwyn cefnogi un elfen neu'i gilydd o elyniaeth yn dal yn heriol. Er enghraifft, efallai nad yw troseddwyr yn ymwybodol o union hunaniaeth y dioddefwr unigol a'r defnydd o iaith allai fod yn aneglur. Mae erlynwyr yn canolbwyntio ar fod mor gywir â phosibl ym mhob erlyniad ac o ran y dadleuon a gyflwynir i'r llys i ategu hynny.

Mae deddfwriaeth a chyfraith achosion yn helpu o ran deall gelyniaeth seiliedig ar hil a chrefydd yn well. Er enghraifft gall Iddewon a Sikhiaid berthyn i hil a chrefydd, yn ddibynnol ar amgylchiadau'r drosedd. Hefyd, gall gelyniaeth grefyddol gynnwys gwahanol sectau o fewn y grefydd honno, pobl nad ydynt yn arddel unrhyw gredoau crefyddol, gelyniaeth sectyddol a gelyniaeth tuag at rai sydd wedi cael tröedigaeth a gwrthgilwyr. Gall gelyniaeth seiliedig ar hil hefyd gynnwys Sipsiwn a rhai Teithwyr, ffoaduriaid neu geiswyr lloches neu eraill o leiafrifoedd llai gweledol. Ble bynnag y ceir tystiolaeth o elyniaeth seiliedig ar hil neu grefydd, byddwn yn amcanu at gyflwyno'r dystiolaeth honno gerbron y llys.

Data a dadansoddiad allweddol y CPS

[Dolen yma at y data llawn ar droseddau casineb seiliedig ar hil a chrefydd yn nhudalennau'r adran data.](#)

Troseddau casineb seiliedig ar hil a chrefydd wedi'u cyfuno:

- Gostyngodd nifer derbyniadau gan yr heddlu o 10,741 yn 2017-18 i 8,890 yn 2018-19 – gostyngiad o 17.2%.
- Gostyngodd nifer y penderfyniadau cyn cyhuddo hefyd o 11,200 yn 2017-18 i 9,654.
- Gostyngodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd o 11,881 i 10,536 yn 2018-19 – gostyngiad o 1,345 (11.3%).
- Arhosodd canran yr euogfarnau yn gyson ar 85.4% yn 2017-18 a 84.7% yn 2018-19.
- Arhosodd canran yr achosion a blediodd yn euog yn gyson ar 76.4%.
- Roedd cyfran yr achosion a arweiniodd ar euogfarn gydag ymgodiad dedfryd wedi ei gyhoeddi a'i gofnodi yn 76.3% yn 2018-19, oedd yn gynydd o 69.9% yn ystod y flwyddyn flaenorol - cynnydd o 6.4 o bwyntiau canran.

Data troseddau casineb seiliedig ar hil:

- Gostyngodd nifer derbyniadau gan yr heddlu o 10,079 yn 2017-18 i 8,401 yn 2018-19 – gostyngiad o 16.6%.
- Gostyngodd nifer y penderfyniadau cyn cyhuddo o 10,472 yn 2017-18 i 9,088 yn 2018-19 - gostyngiad o 13.2%.
- Gostyngodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd o 11,061 yn 2017-18 i 9,931 yn 2018-19 – gostyngiad o 10.2%.
- Arhosodd canran yr euogfarnau yn gyson ar 85.4% yn 2017-18 a 84.7% yn 2018-19.
- Arhosodd canran yr achosion a blediodd yn euog yn gyson ar 76.5%.
- Roedd cyfran yr achosion a arweiniodd ar euogfarn gydag ymgodiad dedfryd wedi ei gyhoeddi a'i gofnodi yn 76.3% yn 2018-19, oedd yn gynydd o 69.9% yn ystod y flwyddyn flaenorol - cynnydd o 6.4 o bwyntiau canran.

Data troseddau casineb seiliedig ar grefydd:

- Gostyngodd nifer derbyniadau gan yr heddlu o 662 yn 2017-18 i 489 yn 2018-19 – gostyngiad o 26.1%.
- Gostyngodd nifer penderfyniadau cyn cyhuddo o 728 yn 2017-18 i 566 yn 2018-19 – gostyngiad o 22.3%.
- Hefyd cynyddodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd yn sylweddol o 820 yn 2017-18 i 605 yn 2018-19 – gostyngiad o 26.2%.
- Arhosodd canran yr euogfarnau yn gyson ar 83.8% o'i gymharu â 84.3% yn 2017-18
- Cynyddodd y pledion euog o 72.8% yn 2017-18 i 74.9%.
- Roedd cyfran yr achosion a arweiniodd ar euogfarn gydag ymgodiad dedfryd wedi ei gyhoeddi a'i gofnodi yn 76.1% yn 2018-19, oedd yn gynydd o 69.2% yn ystod y flwyddyn flaenorol - cynnydd o 6.9 o bwyntiau canran.

Gweithgareddau a gynhaliwyd eleni

- Rhoddodd y CPS dystiolaeth i Grŵp Seneddol yr Holl Bleidiau (APPG) ar Foslemiaid Prydeinig yn tanlinellu sut mae'r gyfraith yn gweithio i amddiffyn y rhai sydd yn wynebu troseddau casineb seiliedig ar grefydd.
- Cyfranogodd y CPS at fenter y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol er mwyn ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r gymuned Sikh.
- Rhoddodd y CPS dystiolaeth i'r [Pwyllgor Merched a Chydraddoldeb](#) mewn perthynas â'u hymchwiliad i Wrth-semitiaeth gan amlinellu hyfforddiant y CPS ar gyfer erlynwyr, y cynllun Yswiriant Troseddau Casineb a rôl Cydlynwyr Troseddau Casineb.

Blaenoriaethau i'r Dyfodol

- Byddwn yn sicrhau bod canllawiau cyfreithiol y CPS ar Droseddau Casineb Seiliedig ar Hil a Chrefydd yn parhau i fod yn gyfredol;
- Byddwn yn ailgynnull y Panel Craffu Cenedlaethol ar droseddau casineb a dargedir at gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr;
- Byddwn yn sefydlu dau Banel Craffu Cenedlaethol newydd; un ar droseddau casineb sydd yn targedu ceiswyr lloches, ffoaduriaid ac ymfudwyr, a'r llall yn canolbwynt ar droseddau casineb sydd yn targedu cymunedau pobl Ddu Affricanaidd a Caribiaidd.

Troseddau casineb seiliedig ar hil

Llwyddodd CPS Gogledd Llundain i erlyn dyn a frathodd foch swyddog yr heddlu tra'n ceisio osgoi cael ei arestio. Gadawodd y troseddwr y swyddog gyda thri ôl brathiad gwaedlyd ar ôl yr ymosodiad. Yn ystod yr ymosodiad gwaeddodd yn hiliol sarhaus ar y swyddog ac fe'i daliwyd ar gamera corff y swyddog yn dweud: "Bydd gen ti'r ôl brathiaidau yna am oes, dyna be ti'n gael".

Cyfaddefodd i ymosodiad gwaethygedig ar sail hil ac o dorri gorchymyn ffrwyno. Dywedwyd wrtho gan y barnwr dedfrydu y byddai wedi cael ei ddedfrydu i 36 mis yn y carchar, ond y byddid yn ymgodi ei ddedfryd i 48 mis yn y carchar oherwydd bod y drosedd yn seiliedig ar hil. Hefyd fe'i dedfrydwyd i 16 mis o garchar am dorri gorchymyn ffrwyno, oedd yn golygu cyfanswm o 64 mis yn y carchar.

Troseddau casineb seiliedig ar grefydd

Erlynodd CPS Gorllewin Swydd Efrog droseddwr oedd wedi postio nifer o negeseuon bygythiol ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol, ac roedd un ohonynt yn hiliol a chrefyddol gamdriniol. Fe'i cyhuddwyd a phlediodd yn euog i dair trosedd o anfon negeseuon ar rwydwaith cyfathrebu cyhoeddus oedd yn sarhaus, anwedus, anllad neu fygythiol.

Dedfrydwyd y diffynnydd i naw mis o garchar a ymgodwyd i 14 wythnos yn y ddalfa er mwyn adlewyrchu'r elfen o waethgiad hiliol a chrefyddol, wedi ei gohirio am 18 mis. Hefyd derbyniodd ofyniad gweithgaredd adsefydlu 35 diwrnod ac fe'i gorchmynnwyd i dalu £85 tua at gostau'r erlyniad a £115 o ordal dioddefwyr.

Troseddau casineb homoffobig, deuffobig a thrawsffobig

Cyd-destun

Nid yw'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer troseddau casineb yn ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu neu'r CPS sefydlu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsrywiol y dioddefwr unigol. Nid oes raid i'r erlyniad ond profi bod y drosedd wedi ei hategu gan arddangosiad o elyniaeth yn seiliedig ar gyfeiriadedd rhywiol ymddangosiadol y dioddefwr neu hunaniaeth drawsrywiol neu bod y drosedd wedi ei chymell gan elyniaeth o'r fath.

Data a dadansoddiad allweddol y CPS

Dolen yma at y data llawn ar droseddau casineb homoffobig, deuffobig a thrawsffobig yn nhudalennau'r adran data.

Troseddau casineb homoffobig a thrawsffobig wedi'u cyfuno:

Mae nifer y troseddau casineb trawsffobig yn dal yn isel felly gall newidiadau bach effeithio'n sylweddol ar y data.

- Gostyngodd nifer derbyniadau gan yr heddlu yn sylweddol o 1,535 yn 2017-18 i 1,492 yn 2018-19 – gostyngiad o 2.8%.
- Cynyddodd nifer penderfyniadau cyn cyhuddo o 1,564 yn 2017-18 i 1,656 yn 2018-19 – cynnydd o 92 o dderbyniadau (5.9%).
- Cynyddodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd o 1,518 yn 2017-18 i 1,713 yn 2018-19; gostyngiad o 195 o erlyniadau (12.8%).
- Cynyddodd canran yr euogfarnau o 85.4% yn 2017-18 i 86.1% yn 2018-19.
- Cynyddodd y pledion euog o 74.5% yn 2017-18 i 78.3% yn 2018-19.
- Roedd cyfran yr achosion a arweiniodd ar euogfarn gydag ymgodiad dedfryd wedi ei gyhoeddi a'i gofnodi yn 69.9% yn 2018-19, oedd yn gynydd o 63.8% yn ystod y flwyddyn flaenorol - cynnydd o 6.1 o bwyntiau canran.

Data troseddau casineb homoffobig:

- Gostyngodd nifer derbyniadau gan yr heddlu yn sylweddol o 1,451 yn 2017-18 i 1,423 yn 2018-19 – gostyngiad o 1.9%.
- Cynyddodd nifer penderfyniadau cyn cyhuddo o 1,472 yn 2017-18 i 1,573 yn 2018-19 – cynnydd o 101 o dderbyniadau (6.9%)
- Cynyddodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd o 1,436 yn 2017-18 i 1,624; gostyngiad o 188 o erlyniadau (13.1%)
- Cynyddodd canran yr euogfarnau ychydig o 85.4% yn 2017-18 i 86.8% yn 2018-19.
- Cynyddodd y pledion euog o 74.9% yn 2017-18 i 79.2% yn 2018-19.
- Roedd cyfran yr achosion a arweiniodd ar euogfarn gydag ymgodiad dedfryd wedi ei gyhoeddi a'i gofnodi yn 70.9% yn 2018-19, oedd yn gynydd o 64.1% yn ystod y flwyddyn flaenorol - cynnydd o 6.8 o bwyntiau canran.

Data troseddau casineb trawsffobig:

- Gostyngodd nifer derbyniadau gan yr heddlu yn sylweddol o 84 yn 2017-18 i 69 yn 2018-19 – gostyngiad o 17.9%.
- Gostyngodd nifer penderfyniadau cyn cyhuddo o 92 yn 2017-18 i 83 yn 2018-19 – gostyngiad o 9 o dderbyniadau (9.8%)
- Cynyddodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd o 82 yn 2017-18 i 89 yn 2018-19; gostyngiad o 7 o erlyniadau (8.5%)
- Gostyngodd canran yr euogfarnau o 76.8% yn 2017-18 i 74.2% yn 2018-19.
- Gostyngodd y pledion euog o 67.1% yn 2017-18 i 62.9% yn 2018-19.
- Roedd cyfran yr achosion a arweiniodd ar euogfarn gydag ymgodiad dedfryd wedi ei gyhoeddi a'i gofnodi yn 48.4% yn 2018-19, oedd yn ostyngiad o 58.1% yn ystod y flwyddyn flaenorol - gostyngiad o 9.6 o bwyntiau canran.

Gweithgareddau a gynhaliwyd eleni

- Gweithiodd y CPS gyda rhanddeiliaid er mwyn diweddarau ein [Datganiad Cydraddoldeb Trawsrywiol](#) (TES) sydd yn disodli Canllawiau Rheoli Cydraddoldeb Trawsrywiol y CPS. Mae'r TES yn darparu trosolwg o ymrwymiadau'r CPS i gydraddoldeb Trawsrywiol er mwyn helpu i gynnal hyder cymunedau.
- Cyfrannodd y CPS at ddiweddiariad ar gynnydd mewn perthynas â Chynllun Gweithredu LGBT Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth ;
- Mynychodd y CPS gyfarfod ford gron Galop ar droseddau casineb. Mynychwyd y digwyddiad gan adrannau'r Llywodraeth, yr heddlu, MOPAC, academyddion a sefydliadau cymunedol, ac amlygwyd arferion cadarnhaol yn ogystal â mapio heriau a chyfleoedd presennol.

Blaenoriaethau i'r Dyfodol

- Byddwn yn sicrhau bod ein canllawiau cyfreithiol ar Droseddau Casineb Homoffobig, Deuffobig a Thrawsffobig yn parhau i fod yn gyfredol;
- Bydd y CPS yn cyhoeddi pecynnau diwygiedig i ysgolion ar Droseddau Casineb LGBT. Mae'r CPS wedi gweithio gyda phobl ifanc LGBT, ysgolion, yn ogystal â rhanddeiliaid cymunedol megis Galop, Stonewall, Gendered Intelligence a Metro Charity. Mae'r CPS wedi cynorthwyo'r Adran addysg yn ogystal â Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth. Bydd y pecyn terfynol yn cael ei lansio yn ddiweddarach eleni neu yn ystod chwarter cyntaf 2020.

Troseddau casineb homoffobig

Erlynodd CPS De Orllewin Lloegr drosedd casineb homoffobig a ddigwyddodd yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb. Ymosodwyd ar ddiodeffwr ar fws a chafodd ei gam-drin yn homoffobig. Plediodd y troseddwr yn euog yn y gwrandawriad cyntaf a gohiriwyd yr achos ar gyfer dedfrydu. Gofynnodd y CPS i'r heddlu am ddatganiad personol y diodeffwr (VPS).

Yn y gwrandawriad dedfrydu, trafododd yr erlynydd yr achos gyda'r diodeffwr a'i deulu gan egluro'r cyhuddiad a'r canllawiau dedfrydu. Hefyd cyflwynodd yr erlynydd gais oedd yn galluogi i'r diodeffwr ddarllen ei VPS yn ystod y gwrandawriad.

Ar y cychwyn ni chyhoeddwyd yr ymgodiad, ond ar ôl i'r erlynydd atgoffa'r llys am yr angen i wneud hynny, unionwyd hynny. Dedfrydwyd y troseddwr i 16 wythnos yn y ddalfa a ymgodwyd i 18 wythnos am yr elfen homoffobig. Dyfarnwyd iawndal a rhoddwyd gorchymyn ffrwyno fyddai mewn grym am 12 wythnos. Ysgrifennodd yr erlynydd at y diodeffwr a'i deulu i egluro'r ddedfryd.

Troseddau casineb trawsffobig

Llwyddodd CPS Dwyrain Canolbarth Lloegr i erlyn trosedd casineb trawsffobig. Cyflawnodd y troseddwr gyfres o ladradau o siopau ar y stryd fawr, ond roedd hefyd yn fygythiol a bu iddo gam-drin y diodeffwr yn eiriol gydag iaith drawsffobig. Cyhuddwyd y troseddwr o gyflawni trosedd trefn gyhoeddus am y drosedd gasineb drawsffobig yn ogystal â nifer o droseddau lladrata.

Plediodd y troseddwr yn euog ac fe'i dedfrydwyd i bedair wythnos yn y carchar. Cynyddwyd y ddedfryd o orchymyn cymunedol oherwydd yr elfen o droseddu casineb.

Troseddau Casineb ar sail anabledd

Cyd-destun

Cynhaliodd HMCPSI archwiliad thematig ar y cyd gyda HMICFRS ar droseddau casineb seiliedig ar anabledd ar ddechrau 2018. Adroddodd yr archwiliad ar welliannau sylweddol mewn ymwybyddiaeth ac adnabod troseddau casineb ers yr archwiliad thematig ar y cyd blaenorol yn 2015, gan roi canmoliaeth benodol i waith Cydlynwyr Troseddau Casineb.

Mae rhai troseddwyr yn cael eu cymell gan ganfyddiad bod pobl anabl yn 'fregus' neu'n 'darged hawdd', yn hytrach na gelyniaeth neu gasineb. Mae hynny yn wahaniaeth pwysig ac nid yw'r CPS yn

gallu gwneud cais i ymgodi dedfryd statudol o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn yr achosion yma. Ond os nad yw trosedd yn bodloni'r diffiniad cyfreithiol o drosedd casineb seiliedig ar anabledd bydd y CPS yn cyflwyno i'r llys unrhyw dystiolaeth o dargedu person anabl am y rheswm hwnnw, fel bod y dedfryd yn adlewyrchu difrifoldeb troseddu o'r fath hyd yn oed os na ellir cymhwyso ymgodiad statudol.

Bydd p'un ai a yw'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn ymdrin yn ddigonol â phrofiadau pobl anabl yn fater i'w ystyried gan yr adolygiad parhaus o fframwaith deddfwriaethol troseddau casineb sydd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Gomisiwn y Gyfraith.

Data a dadansoddiad allweddol y CPS

Dolen yma at y data llawn ar droseddau casineb seiliedig ar anabledd yn nhudalennau'r adran data.

- Gostyngodd nifer y derbyniadau gan yr heddlu yn sylweddol o 625 yn 2017-18 i 367 yn 2018-19 - gostyngiad o 41.3%.
- Gostyngodd nifer penderfyniadau cyn cyhuddo o 754 yn 2017-18 i 516 yn 2018-19 – gostyngiad o 31.6%.
- Gostyngodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd yn sylweddol o 752 yn 2017-18 i 579 yn 2018-19 – gostyngiad o 173 o erlyniadau (23.0%).
- Gostyngodd canran yr euogfarnau o 75.0% yn 2018-19 i 72.4% - gostyngiad o 2.6 o bwyntiau canran.
- Gostyngodd y pledion euog o 65.7% yn 2017-18 i 63.0% yn 2018 -19.
- Roedd cyfran yr achosion a arweiniodd ar euogfarn gydag ymgodiad dedfryd wedi ei gyhoeddi a'i gofnodi yn 27.5% yn 2018-19, oedd yn gynydd o 24.8% yn ystod y flwyddyn flaenorol - cynnydd o 2.7 o bwyntiau canran.

Gweithgareddau a gynhaliwyd eleni

- Addaswyd y System Rheoli Gwaith Achos er mwyn cynnwys sgriniau er mwyn atgoffa erlynwyr i gofnodi y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod anghenion cymorth dioddefwyr a thystion yn cael eu cofnodi'n briodol;
- Addasodd y CPS y canllawiau erlyn a ddiweddarwyd ynghylch defnyddio Mesurau Arbennig. Erbyn hyn mae'r canllawiau yn cynnwys cyfeiriad priodol at addasiadau rhesymol a'r Model Anabledl Cymdeithasol;
- Parhaodd y CPS i gefnogi Fforwm Trosedd Casineb seiliedig ar Anabledl Dysgu ac Awtistiaeth a gynhaliwyd gan Sefydliad Pobl ag Anabledl Dysgu. Mae'r fforwm yn ffynhonnell gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i rai sydd yn llunio polisiâu troseddau casineb;
- Siaradodd Hyrwyddwr Prif Erlynnydd y Goron ar Droseddau Casineb, Chris Long, yn y digwyddiad lansio ar gyfer adroddiad Sefydliad Pobl ag Anabledl Dysgu '[Bywyd Heb Ofn?](#)' Mae'r adroddiad yn amlygu'r gwaith sydd yn cael ei wneud i daclo troseddau casineb seiliedig ar anabledl a faint mwy sydd angen ei wneud ar draws y system cyfiawnder troseddol.

Blaenoriaethau i'r Dyfodol

- Byddwn yn sicrhau bod ein canllawiau cyfreithiol ar Droseddau seiliedig ar Anabledd yn parhau i fod yn gyfredol;
- Derbyniwyd y cynnig ynghylch hyfforddiant yn ystod y flwyddyn fydd yn tanlinellu ymrwymiad y CPS i'r Model Anabledd Cymdeithasol. Bydd cwrs y Coleg Erlyn yn cael ei fandadu a bydd yn gymorth i erlynwyr i adnabod a dileu rhwystrau rhag cael mynediad at gyfiawnder i bobl anabl. Bydd y cwrs yn cael ei ddatblygu a'i beilota yn diwedd 2019 a bydd yn weithredol erbyn dechrau 2020;
- Bydd cynllun Yswiriant Troseddau Casineb yn parhau i gefnogi erlyn troseddau casineb seiliedig ar anabledd yn effeithiol a bydd yn darparu fframwaith ar gyfer sicrhau bod pob dioddefwr anabl yn cael cymorth priodol a bod yr achosion a gyflwynir yn ddigonol;
- Mewn partneriaeth â'r ECG a rhanddeiliaid cymunedol, rhoi mwy o ystyriaeth i sut allwn gyflawni'n well mewn perthynas â'r ymrwymadau canlynol yn ein datganiad cyhoeddus ar droseddau casineb seiliedig ar anabledd a throseddau eraill yn erbyn pobl anabl:
 "Rydym yn amcanu at sicrhau na fydd dyfarniadau anghywir yn cael eu gwneud ynghylch dibynadwyedd neu hygredded pobl anabl fel tystion sydd yn rhoi tystiolaeth mewn llys. Gall dyfarniadau o'r fath arwain at benderfyniadau cyhuddo anghywir neu gallai danseilio llwyddiant posibl erlyniad.

Felly, byddwn yn:

- o Peidio â gwneud tybiaethau ynghylch dibynadwyedd neu hygredded person anabl, ac yn herio eraill sydd yn gwneud hynny;
- o Sicrhau bod pobl anabl yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt er mwyn iddynt roi eu tystiolaeth orau;
- o Bod yn fwy tebygol o erlyn achosion pan fo anabledd yn ffactor, yn cynnwys troseddau casineb seiliedig ar anabledd pan fo digon o dystiolaeth i wneud hynny;
- o Cofio bod iaith yn bwysig a dim ond defnyddio'r term 'bregus' mewn perthynas â phobl anabl pan fo hynny yn briodol yng nghyd-destun y gyfraith a ffeithiau'r achos;
- o Cydnabod bod y gred seiliedig ar stereoteipio bod person anabl yn 'fregus' yn gefndir i droseddau casineb seiliedig ar anabledd a throseddau yn erbyn pobl anabl, a gall hyd yn oed fod yn ffactor cymhellol mewn troseddau a gyflawnir yn eu herbyn."

Troseddau Casineb ar sail anabledd

Llwyddodd CPS De Orllewin Lloegr i sicrhau ymgodiad dedfryd mewn achos o droseddu casineb ar sail anabledd. Roedd y troseddwr a'r dioddefwr mewn perthynas, roedd y dioddefwr yn 16 oed ar y pryd. Cyhuddwyd y troseddwr o gyflawni tri ymosodiad ar y dioddefwr. Yn ystod y digwyddiad cyntaf fe darodd ei braich ac yn yr ail ddigwyddiad aeth ati i'w cham-drin yn eiriol gydag iaith anableddol, ei slapio yn ei hwyneb â'r ddwy law a'i tharo ar ei thalcen gyda chledr ei law gan achosi iddi daro polyn metel y tu ôl iddi. Yn y trydydd ddigwyddiad, roedd y dioddefwr ar FaceTime gyda'i thad sydd yn fyddar, ac roeddent yn defnyddio iaith arwyddion. Trodd y troseddwr yn flin pan nad oedd yn gallu deall beth oeddent yn ei ddweud, felly dyrnodd y dioddefwr yn ei chefn a gwthio ei benelin i'w gwddf. Hefyd defnyddiodd iaith anableddol tuag ati hi a'i thad.

Plediodd y troseddwr yn euog i'r tri ymosodiad a rhoddwyd dyfarniad o 12 wythnos yn y ddalfa iddo am yr ymosodiad anwaethgedig a 14 wythnos am y ddau ymosodiad gwaethgedig oedd yn cynnwys yr ymgodiad dedfryd. Gohiriwyd y ddedfryd am 12 mis. Hefyd fe'i gorchynnwyd i gwblhau 150 awr o waith di-dâl ac i dalu iawndal o £200.

Ysgogi casineb

Cyd-destun

Mae Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 yn cynnwys ysgogi casineb seiliedig ar hil, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol. Nid oes yna drosedd o ysgogi casineb seiliedig ar hunaniaeth trawsrywiol neu anabled.

Mae troseddau casineb yn canolbwyntio ar ragfarn yn erbyn rhannau penodol o gymdeithas. Ond, mae troseddau trefn gyhoeddus “ysgogi casineb” yn canolbwyntio ar y gasineb ei hun a’r bwriad ac effaith debygol y drosedd dan sylw.

Mae nifer yr achosion a gyflwynir yn llawer is na throseddau eraill sydd yn gynwysedig yn yr adroddiad yma. Mae hynny oherwydd y trothwyon tystiolaeth uwch a’r angen i ystyried hawl yr unigolyn i ryddid mynegiant. Mewn cymdeithas rydd, ddemocrataidd a goddefgar, mae’n hanfodol bod pobl yn gallu cyfnewid safbwyntiau, hyd yn oed pan y tramgwyddir. Ond, mae’n rhaid i’r CPS hefyd gydbwyso hawliau unigolyn i ryddid barn a mynegiant yn erbyn dyletswydd y wladwriaeth i weithredu’n gymesur er lles diogelwch y cyhoedd, er mwyn atal anhrefn a throseddu a diogelu hawliau pobl eraill.

Mae achosion posibl o “ysgogi casineb” yn cael eu cyfeirio i’r Adran Troseddu a Gwrthderfysgaeth Arbennig (SCCTD) gan Ardaloedd CPS, yn unol â Chanllawiau’r CPS ar [Droseddau Casineb Seiliedig ar Hil a Chrefydd](#) a [Throseddau Casineb homoffobig, deuffobig a thrawsfobig](#). Mae angen cydsyniad yr Atwrnai Cyffredinol i erlyn y troseddau yma.

Data a dadansoddiad allweddol y CPS

[Dolen yma at y data llawn ar droseddau ysgogi casineb yn nhudalennau’r adran data.](#)

Roedd yna un deg tri o erlyniadau yn 2018-19, ac un ar ddeg ohonynt wedi arwain at euogfarnau. Dyma’r nifer uchaf o achosion a erlynwyd ers i ni ddechrau adrodd ar “ysgogi casineb”.

Gweithgareddau a gynhaliwyd eleni

Er bod nifer cyffredinol yr achosion o ysgogi casineb a erlynwyd yn parhau i fod yn isel, eleni gwelwyd ymchwydd arwyddocaol arall o’i gymharu â blynyddoedd diweddar. Er hynny, mae’r gyfradd euogfarnau yn parhau i fod yn uchel a dim ond un person dan amheuaeth a ryddfarnwyd ac un achos yn cael ei ddiddymu ar ôl i’r drwgdybiedig farw. Mae Adran Gwrthderfysgaeth y CPS yn parhau i weithio’n agos â thimau heddlu arbenigol er mwyn taclo eithafiaeth cyfundrefnol yn effeithiol a sicrhau bod arferion da a gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu’n effeithiol.

Blaenoriaethau i'r Dyfodol

Dau duedd diweddar yw'r bygythiad cynyddol o eithafiaeth Adain Dde a adroddwyd arno gan heddlu gwrthderfysgaeth, ac ymchwyddiadau mewn achosion o droseddau casineb, a hynny o bosibl yn gysylltiedig â Brexit. Disgwylir i hynny ddylanwadu'n fawr ar atgyfeiriadau i'r CPS yn ystod y 12 mis nesaf, ac o ganlyniad i hynny disgwylir i'r achosion a atgyfeirir i'r Adran Gwrthderfysgaeth barhau i fod yn uchel. Mae'r adran yn buddsoddi mewn hyfforddiant ar y cyd gyda thimau heddlu arbenigol er mwyn sicrhau bod gan yr holl gyfreithwyr yn yr adran ddealltwriaeth briodol o grwpiau ac ideolegau ymddangosol, a'u bod yn cynnal hynny.

Ysgogi casineb

Yn dilyn ymosodiadau terfysgol y llynedd yn Llundain a Manceinion, roedd yna bryder sylweddol ymysg y cyhoedd ynglŷn â chynnydd mewn troseddau casineb cysylltiedig yn erbyn Mwslimiaid a chymunedau lleiafrifol eraill. Adlewyrchwyd hynny mewn cynnydd yn nifer yr achosion a atgyfeiriwyd i'r Adran Gwrthderfysgaeth mewn perthynas â throseddau ysgogi casineb hiliol neu grefyddol. Blwyddyn yn ddiweddarach, mae nifer o'r achosion hynny wedi dod i ben gyda dedfrydau o garchar sylweddol.

Fel ymateb i'r ymosodiadau ar Bont Llundain a Marchnad Borough, postiodd Ian Evans negeseuon ar dudalen gymunedol Facebook a elwir yn 'The Shrewsbury Group'. Yn y neges honno anogodd bobl i 'ymladd yn ôl' i 'hela a lladd Mwslimiaid' a gwahoddodd bobl i fynychu gorymdaith brotest y tu allan i'r mosg lleol ar 5 Mehefin 2017. Ar ôl pledio'n euog i ddwy drosedd o ysgogi casineb crefyddol fe'i dedfrydwyd i naw mis mewn carchar.

Postiodd Peter John Tovey nifer o negeseuon bygythiol ar Facebook gan dargedu Mwslimiaid a thramorwyr. Ar 4 a 5 Mehefin 2017 postiodd negeseuon a **ddywedodd**, ymysg pethau eraill ' Mae angen chwyldro arnom, mae angen i ni fynd i'r strydoedd ac ymladd yn ôl'. Plediodd yn euog i drosedd o ysgogi casineb a dwy drosedd o ysgogi casineb crefyddol, ac fe'i dedfrydwyd ar 27 Mawrth 2018 i gyfanswm o 15 mis o garchar.

Fel ymateb i'r bomio ym Manceinion ar 22 Mawrth 2017, postiodd Keegan Jakovlevs negeseuon ar Facebook yn gwahodd ei ddarllenwyr i ladd pob Mwslim maent yn eu gweld. Ar ôl pledio'n euog i drosedd o ysgogi casineb crefyddol fe'i dedfrydwyd i 12 mis mewn carchar. Bythefnos yn ddiweddarach ar noson y cyngerdd teyrnged, cyhoeddodd Andrew Emery nifer o bostiau ar ei gyfrif Facebook cyhoeddus yn targedu'r gymuned Fwslimaidd. Ar 4 Mehefin 2017 gwahoddodd lofruddwyr cyfresol i dargedu'r gymuned Fwslimaidd a gwahoddodd ei ddarllenwyr i losgi mosgiau i'r llawr. Plediodd yn euog i dair trosedd o ysgogi casineb crefyddol ac fe'i dedfrydwyd i ddwy flynedd mewn carchar. Dywedodd y barnwr nad yw rhyddid barn yn hawl absoliwt, ac nad yw hynny yn cynnwys geiriau sydd â'r bwriad o ledaenu casineb crefyddol.

Troseddau yn erbyn pobl hŷn

Cyd-destun

Nid oes yna ddiffiniad statudol o drosedd yn erbyn pobl hŷn a dim deddfwriaeth benodol ychwaith. Nid yw adrannau 145 a 146 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, sydd yn darparu ar gyfer ymgodi dedfryd mewn achosion o droseddau casineb seiliedig ar hil a chrefydd, homoffobig, deuffobig a thrawsffobig a throseddau casineb ar sail anabledd, yn gymwys i droseddau yn erbyn pobl hŷn oni bai fod y drosedd hefyd yn perthyn i un o'r categorïau yma hefyd. Ond mae canllawiau dedfrydu yn gwahodd llysoedd i gynyddu'r ddedfryd ar gyfer rhai sydd yn troseddu yn erbyn pobl hŷn oherwydd bod eu natur fregus ymddangosiadol yn ffactor gwaethygedig sydd yn cynyddu difrifoldeb y drosedd.

Mae'r CPS yn cymhwyso'r canllawiau dedfrydu yn yr holl achosion cymwys. Mae'r CPS yn cymhwyso fflag CAOP i achosion ar system reoli achosion digidol y CPS. Yn ddiweddar mae newidiadau wedi cael eu gwneud i ddiffiniad fflagio y CPS o CAOP a thrafodir y manylion yn yr adran isod. Ond yn ystod 2018-19 roedd y meini prawf fflagio canlynol yn gymwys:

- pa fo yna berthynas a disgwyliad o ymddiriedaeth e.e. ymosodiad/lladrad gan ofalwr neu aelod o'r teulu;
- pan fo'r drosedd wedi ei thargedu'n benodol at y person hŷn oherwydd y tybir ei fod yn fregus neu'n 'darged hawdd' e.e. lladrad drwy dynnu sylw neu fygio;
- pan nad yw'r drosedd i ddechrau yn gysylltiedig ag oedran y person hŷn, ond mae hynny yn gysylltiedig yn ddiweddarach e.e. lladrad pan nad yw'r lleidr yn ymwybodol o oedran deiliad y tŷ ond aiff yn ei flaen i fanteisio ar y sefyllfa pan mae'n darganfod bod deiliad y tŷ yn berson hŷn;
- pan fo'n ymddangos bod troseddau yn rhannol, neu'n gyfan gwbl, wedi eu cymell gan elyniaeth seiliedig ar oedran, neu oedran ymddangosiadol e.e. ymosodiad, aflonyddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynnwys datganiadau sarhaus sydd yn gysylltiedig ag oedran y dioddefwr; neu
- pan fo troseddwr yn fwriadol yn targedu person hŷn oherwydd ei elyniaeth tuag at bobl hŷn.

Data a dadansoddiad allweddol y CPS

Dolen yma at y data llawn ar droseddau yn erbyn pobl hŷn yn nhudalennau'r adran data.

- Gostyngodd nifer y penderfyniadau cyn cyhuddo o 3,389 yn 2017-18 i 3,043 yn 2018-19 - gostyngiad o 346(10.2%).
- Gostyngodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd o 3,295 yn 2017-18 i 2,958 - gostyngiad o 337 o neu 10.2%.
- Gostyngodd canran yr euogfarnau o 83.6% yn 2017-18 i 81.5% yn 2018-19.

Gweithgareddau a gynhaliwyd eleni

- Gweithiodd y CPS gyda rhanddeiliaid a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn adolygu ein canllawiau polisi ar Troseddau yn Erbyn Pobl Hŷn. Cyhoeddwyd y [canllawiau polisi](#) diwygiedig ynghyd â [chanllawiau cyfreithiol i erlynwyr](#).
- Y prif newid i bolisi a chanllawiau cyfreithiol y CPS yw diffiniad fflagio diwygiedig ar gyfer Troseddau yn erbyn pobl hŷn ar gyfer ein system reoli achosion. Y diffiniad fflagio newydd yw:

“pan fo’r dioddefwr yn 65 oed neu’n hŷn, unrhyw drosedd y mae’n ymddangos i’r dioddefwr neu unrhyw berson arall, ei bod wedi cael ei chyflawni oherwydd natur fregus y dioddefwr yn seiliedig ar oedran neu natur fregus ymddangosiadol seiliedig ar oedran.”

- Cyhoeddodd HMICFRS a HMCPSI adroddiad ar y cyd i waith yr heddlu a’r CPS mewn perthynas â Throseddau yn Erbyn Pobl Hŷn. Amlygodd yr arolygiaeth rai materion allweddol mewn perthynas â’n proses o fflagio a monitro Troseddau yn erbyn pobl hŷn yr oeddem eisoes wedi eu nodi a’u diweddarau fel rhan o ddiweddarau ein polisi a’n canllawiau cyfreithiol. Hefyd amlygwyd ganddynt yr angen am fwy o ymwybyddiaeth ac ystyriaeth i anghenion dioddefwyr a thystion hŷn. Nododd yr adroddiad hefyd ein bod wedi cyhuddo’n briodol pob achos a archwiliwyd.

Blaenoriaethau i’r Dyfodol

- Derbyniodd y CPS yr holl argymhellion a gynigiwyd yn adroddiad HMICFRS a HMCPSI a byddwn yn gweithio i sicrhau gwell cymorth i ddioddefwyr a thystion yn ogystal â gweithio gyda’r arweinydd plismona er mwyn sicrhau dull mwy cydlynol o ddelio â Throseddau yn erbyn pobl hŷn.

Troseddau yn erbyn pobl hŷn

Defnyddiodd y troseddwr nifer o ffugenwau a chymryd arno ei fod yn feddyg cymwys, yn nyrs, yn therapydd galwedigaethol, ffisiotherapydd, osteopath a cheiropractydd. Roedd yn fwriadol yn targedu pobl hŷn ac yn perswadio i ddefnyddio ei gwasanaethau ffug am dâl. Roedd y troseddwr hefyd yn cymryd arni ei bod yn *masseuse* ac yn gweithredu fel ‘cymorth yn y cartref’. Roedd yn rhoi ei meddyginiaeth rhagnodol ei hun i ddioddefwyr hŷn heb unrhyw ystyriaeth na gwybodaeth am eu hanes meddygol.

Ar ôl ei heuogfarnu am saith achos o dwyll drwy gam gynrychioli a thri achos o gyflenwi cynnyrch meddygol rhagnodol yn unig, llwyddodd y CPS i gael Gorchymyn Ymddygiad Troseddol oedd yn cynnwys amodau oedd yn gwahardd y troseddwr rhag hysbysebu, darparu neu berfformio gwasanaethau gofal am dâl neu fel arall. Hefyd rhoddodd y barnwr orchymyn ffrwyno er mwyn diogelu’r dioddefwyr penodol a dargedwyd gan y troseddwr.

Adroddiad Data ar Droseddau Casineb

Mae'r Adroddiad Data ar Droseddau Casineb yn darparu dadansoddiad data manwl ar bob un o'r meysydd troseddau casineb, yn ogystal ag ysgogi achosion casineb a throseddau yn erbyn pobl hŷn.

Adroddiad Data ar Droseddau Casineb

Egluro data'r CPS

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn casglu data at ddibenion rheoli achos er mwyn cynorthwyo'r gwaith o reoli ei swyddogaethau erlyn yn effeithiol. Mae'r CPS yn barhaus yn adolygu ei brosesau ac arferion cofnodi er mwyn gwella mwy ar y broses o gasglu a defnyddio'r data a ddelir. Nid yw'r CPS yn casglu data sydd yn ystadegau swyddogol fel y diffinnir hynny yn Neddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007.³

Mae'r data yn yr adroddiad yma yn nodi deilliannau troseddau casineb, yn seiliedig ar y data gorau sydd ar gael gan System Gwybodaeth Reoli'r CPS. Darperir nodiadau eglurhaol yn yr adroddiad drwyddi draw er mwyn helpu i ddehongli'r data.

Mae mwy o wybodaeth a dadansoddiad manylach o gyffredinedd troseddau casineb ar gael yn [Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr](#) a gan y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder pan fônt ar gael.

Mae'r data sydd yn sylfaen i'r adroddiad yn deillio o System Reoli Achosion (CMS) y CPS, System Reoli Tystion (WMS) y CPS, a'i System Gwybodaeth Reoli (MIS) gysylltiedig. Mae'r data yn cael ei ddal mewn tri chronfa ddata ar wahân yn y MIS⁴, yn seiliedig ar ddiffynyddion, troseddau ac achwynwyr neu dystion. Ni ellir cysylltu'r data rhwng y cronfeydd data ar wahân⁵.

Mae troseddau casineb yn cael eu clustnodi gan fflagiau a osodir â llaw wrth ddiffynyddion yn y CMS⁶, ac adroddir ar hynny drwy'r MIS. Mae'r data yma yn cael ei gofnodi yn ôl 'drwgdybiedig' (cyn cyhuddo) neu 'ddiffynnydd' (ar ôl cyhuddo) ac felly mae hynny yn darparu data ar benderfyniadau cyn cyhuddo ac unigolion a ddrwgdybir a gyhuddir yn ogystal â deilliannau diffynyddion. Hefyd, mae'n darparu cyfleuster i gofnodi proffiliau cydraddoldeb diffynyddion.⁷ Rydym yn dadansoddi deilliannau erlyniadau gan ddefnyddio'r gronfa ddata diffynyddion, ac felly mae'r adroddiad yma yn adlewyrchu hynny drwyddi draw.

Mae'r WMS yn system reoli achosion bwrpasol a ddyluniwyd gan ac ar gyfer staff Uned Gofal Tystion (WCU) arbenigol er mwyn rheoli eu hachosion yn effeithiol. Mae cofnodion a data tystion WMS, a'r

³ Mae'r ystadegau swyddogol mewn perthynas â throseddu a phlismona yn cael eu cynnal gan y Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac mae'r ystadegau swyddogol mewn perthynas â dedfrydu, achosion llys troseddol, troseddwy'r sy'n wynebu cyfiawnder, y llysoedd a'r farnwriaeth yn cael eu cynnal gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

⁴ Fel yn achos unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, mae data yn destun camgymeriadau posibl o ran mewnbynnu a phrosesu data. Mae'r ffigyrau yn rhai dros dro allai newid wrth i fwy o wybodaeth gael ei chofnodi gan y CPS.

⁵ Mae'r adroddiad yma yn bennaf yn darparu deilliannau yn ôl diffynyddion ac ni all ddarparu gwybodaeth ar wahân ar ddeilliannau seiliedig ar ddiodefwyr neu droseddau. At y diben hwnnw, ni ellir darparu data ar wahân ar gyfer deilliannau achosion a wynebwr gan ddiodefwyr gwrywaidd a benywaidd; ac nid yw'n bosibl cysylltu rhyw y diffynnydd â rhyw y diodefwyr.

⁶ Mae'r CPS yn cynnal cofnod canolog o ddeilliannau erlyniadau gyda chyfeiriadau at nifer o fflagiau monitro achosion, yn cynnwys DA, trais, priodas dan orfod, cam-drin 'seiliedig ar anrhydedd' honedig, cam-drin plant a masnachu mewn pobl. Mae'r fflagiau yma yn cael eu cymhwyso i achosion a glustnodir fel rhai sydd yn cynnwys y mathau yma o droseddau gan staff Ardal. Mae'r data a gynhyrchir yn cael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer monitro perfformiad ac mae ond yn gywir pan fo'r fflag wedi ei gymhwyso'n briodol.

⁷ Mae proffiliau cydraddoldeb diffynyddion yn cynnwys data ar eu rhyw, oedran ac ethnigrwydd.

system pan fo hynny wedi ei gofnodi yn cynnwys proffiliau cydraddoldeb adroddiadau data o achwynwyr (a thystion). Gall WMS ddim ond darparu data ar *symiau'r* achwynwyr sydd yn gysylltiedig ag erlyniadau, yn ôl rhyw (pan fo hynny ar gael), yn hytrach na *deilliannau'r* erlyniadau hynny. Nid yw'n cynnwys unrhyw ddata sydd yn adrodd ar swm yr achwynwr honedig sydd yn gysylltiedig ag achosion cyn cyhuddo, ac felly ni all gynnwys data ar benderfyniadau cyn cyhuddo a chyhuddiadau'r CPS.

Mae proffiliau cydraddoldeb diffynyddion yn ôl rhyw, ethnigrwydd ac oedran yn cael eu hasesu ac adroddir arnynt yn rhan hon yr adroddiad. Adroddir ar ddata proffiliau cydraddoldeb achwynwyr/dioddefwyr pan fônt ar gael, ac rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd o wella'r data cysylltiedig ag achwynwyr a ddelir yn y CIS.

Mae data ymgodi dedfryd yn gysylltiedig â chyfran yr holl achosion a euogfarnwyd a fflagiwyd fel troseddau casineb pan fo ymgodiad dedfryd wedi cael ei gyhoeddi gan y Llys a'i gofnodi yn ffeil y CPS.

Addaswyd y rheolau cyfrif ar gyfer cyflwyno symiau a chyfrannau ymgodi dedfrydau troseddau casineb, a daeth hynny i rym o Ebrill 2018. Erbyn hyn mae achosion pan fo diffynyddion wedi cael eu traddodi i'w dedfrydu mewn Llys y Goron ar ôl eu heugfarnu mewn llysoedd ynadon wedi eu heithrio o'r setiau data. Nid yw'r data euogfarnau a goladwyd gan y CPS yn cynnwys ymgodiadau dedfrydau a gofnodwyd ar achosion pan fo'r dedfrydau wedi eu gohirio drwy draddodi i ddedfrydu i Lys y Goron.

Mae traddodi i ddedfrydu yn weithdrefn a ddefnyddir i anfon diffynnydd a euogfarnwyd o lys ynadon i Lys y Goron i'w ddedfrydu, pa fo ynadon yn ystyried nad yw'r cosbau sydd ar gael iddynt yn ddigonol o ystyried difrifoldeb y drosedd neu gyfuniad o droseddau, gallent draddodi'r troseddwr i Lys y Goron i'w ddedfrydu.

Mae ffigyrau yn yr adroddiad presennol wedi cael eu cynhyrchu yn unol â'r rheolau diwygiedig. Er mwyn sicrhau cysondeb, mae data ar gyfer blynyddoedd blaenorol wedi cael eu hail gyfrifo gan ddefnyddio'r dull yma.

Ni ellir disgwyl y bydd ymgodi dedfryd yn digwydd yn achos pob euogfarn a fflagiwyd fel trosedd gasineb. Mae troseddau casineb yn cael eu fflagio ar sail canfyddiad. Ond, er mwyn erlyn achosion fel troseddau casineb, a chael ymgodiad dedfryd wedi ei gyhoeddi a'i gofnodi, mae angen cael tystiolaeth o elyniaeth. Mae hynny'n golygu bod yna rai achosion o bosibl sydd wedi cael eu fflagio ond yr ystyrir nad oes digon o dystiolaeth i brofi'r elfen waethygedig sydd ei hangen ar gyfer ymgodi, er i'r erlyniad fod yn llwyddiannus yn gyffredinol, nid oedd yn bosibl gofyn am yr ymgodiad.

Efallai bod yna hefyd achosion pan fo cais am ymgodiad yn cael ei gyflwyno i'r Llys gan yr erlyniad ar ôl cyhoeddi euogfarn am drosedd, ond mae'r Llys yn gwneud penderfyniad barnwrol nad yw'r darpariaethau yn gymwys.

Polisi'r CPS yw peidio a thynnu'r fflag o ffeil achos oni bai ei bod wedi ei hychwanegu drwy gamgymeriad gweinyddol.

O ganlyniad i hynny, er ein bod yn cynnal ein hymrwymiad i wella ffigyrau ymgodi, nid ydym yn rhagweld y bydd y ffigwr yma fyth yn cyrraedd 100%.

Yn unol â pholisi'r llywodraeth, rydym yn cyhoeddi'r data tanategol a ddefnyddir yn ein hadroddiadau. Mae [data tanategol yr adroddiad yma](#) ar gael ar wefan CPS, yn yr adran Cyhoeddiadau.⁸

Hwn fydd yr adroddiad ar Droseddau Casineb olaf o'i fath gan y CPS. Yn 2019-20 byddwn yn newid i adrodd ar ddata yn chwarterol, a thrwy hynny bydd yn darparu'r data rheoli mwyaf cyfredol yn gyflymach. Hefyd bydd adroddiad blynyddol cryno yn cael ei ddarparu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Egluro terminoleg

Mae'r [Eirfa](#) yn rhoi diffiniadau manylach o'r termau a ddefnyddir isod. Mae'r tabl yn darparu crynodeb er mwyn egluro'r termau cysylltiedig a data cyn cyhuddo.

Term a ddefnyddir	Eglurhad
Derbyniadau cyn cyhuddo	Cyfanswm yr unigolion drwgdybiedig a atgyfeirir gan yr heddlu i'r CPS ar gyfer penderfyniad ynghylch cyhuddo.
Penderfyniadau cyn cyhuddo	<p>O blith yr holl unigolion drwgdybiedig a atgyfeirir gan yr heddlu, penderfyniadau cyn cyhuddo yw'r rhai pan fo'r CPS wedi gwneud penderfyniad ynghylch cyhuddo, peidio cymryd camau ychwanegol, argymell penderfyniadau y tu allan i'r llys, cwblhau'n weinyddol neu 'arall'⁹.</p> <p>Mae penderfyniadau cyfreithiol cyn cyhuddo yn cynnwys: cyhuddo, peidio â chymryd camau ychwanegol neu argymell penderfyniad y tu allan i'r llys.</p> <p>Mae penderfyniadau nad ydynt yn rhai cyfreithiol cyn cyhuddo yn cynnwys, cwblhau'n weinyddol ac 'arall'.</p>
Cwblhau'n weinyddol	<p>Nid yw penderfyniadau a gwblheir yn weinyddol yn benderfyniadau cyfreithiol ac efallai nad hynny fydd diwedd yr achos. Gall y CPS ofyn i'r heddlu ddarparu mwy o wybodaeth pan nad oes digon o dystiolaeth i wneud penderfyniad cyhuddo, neu mae'r heddlu yn gofyn am gyngor ymchwilio cynnar. Os na fydd yr heddlu yn ymateb o fewn tri mis, ar ôl eu hatgoffa, bydd yr achos yn cael ei gau ar CMS. Gelwir hyn yn 'gwblhau gweinyddol'.</p> <p>Os bydd yr heddlu yn darparu mwy o dystiolaeth, bydd yr achos yn cael ei ailagor yn CMS ac, os yn bosibl, bydd penderfyniad cyhuddo yn cael ei wneud.</p>

⁸ Adroddir ar ddata yn yr adroddiad hwn drwyddo draw, a darperir unrhyw ddata tanategol ychwanegol ar wefan CPS.

⁹ 'Arall' yw pan fo canlyniad y penderfyniad cyhuddo yn anhysbys neu na roddwyd hynny i'r unigolyn drwgdybiedig hwnnw.

	Bydd achosion pan fo'r CPS wedi cynghori'r heddlu i gyhuddo ond na chyhuddwyd y drwgdybiedig oherwydd nad yw'n bodloni mechniaeth yr heddlu neu mae'n cael ei leoli, yn cael eu cwblhau'n weinyddol hefyd. Os bydd y drwgdybiedig yn cael ei leoli a'i gyhuddo yn dilyn hynny, bydd yr achos yn cael ei ailagor yn CMS.
NFA	Penderfyniadau NFA yw pan fo'r heddlu wedi penderfynu na ddylid cymryd camau ychwanegol; ni all yr achos fynd yn ei flaen i gyhuddo oherwydd nad yw'n bodloni prawf Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, am naill ai resymau tystiolaethol neu les y cyhoedd.
Cyhuddo	Penderfyniadau cyhuddo yw pan fo'r CPS yn fodlon y bodlonir y prawf cyfreithiol ar gyfer erlyn, a nodir yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron: nid oes digon o dystiolaeth i gynnig 'gobaith realistig o euogfarn' yn erbyn pob diffynnydd ac mae erlyn er lles y cyhoedd.

Derbyniadau'r heddlu a phenderfyniadau cyn cyhuddo

Cyn 2018-19 adroddwyd ar ddata ar 'benderfyniadau cyn cyhuddo' a gwblhawyd gan y CPS fel 'atgyfeiriadau'r heddlu' yn yr adroddiad ar Droseddau Casineb. Mae'r adroddiad 2018-19 yma yn defnyddio terminoleg wahanol er mwyn egluro'r data. Mae'n darparu dwy set o ddata - (i) achosion a 'dderbynnir cyn cyhuddo' - nifer y drwgdybiedig a atgyfeirir i'r CPS gan yr heddlu am benderfyniad cyhuddo a (ii) 'penderfyniadau cyn cyhuddo a gwblhawyd gan y CPS' (a elwid yn flaenorol yn 'atgyfeiriadau'r heddlu') sydd yn benderfyniad gan y CPS ynghylch cyhuddo, peidio cymryd camau ychwanegol, argymhell penderfyniad y tu allan i'r llys, cwblhau'n weinyddol neu 'arall'.^[1]

Mae nifer y **derbyniadau cyn cyhuddo a atgyfeirir gan yr heddlu** yn dibynnu ar (a) yr heddlu yn clustnodi ac yn fflagio'r achosion, yn ôl y drwgdybiedig, cyn eu hatgyfeirio i'r CPS a (b) gweinyddwyr y CPS yn clustnodi a fflagio'r achosion hynny ar System Reoli Gwaith Achos y CPS, ble maent yn cael eu cofrestru gyntaf.

Bydd swm y **penderfyniadau cyn cyhuddo a gwblheir gan y CPS** yn gyfanswm y rhai a atgyfeirir gan yr heddlu (a fflagiwyd gan yr heddlu a'r CPS wrth gofrestru) ynghyd ag unrhyw rai sydd wedi eu fflagio gan erlynwyr a gweinyddwyr y CPS yn ddiweddarach, ond cyn cwblhau'r penderfyniad cyn cyhuddo terfynol.

Bydd cyfanswm y data ar benderfyniadau cyn cyhuddo yn seiliedig ar y dyddiad y cwblhawyd y cyngor cyhuddo a'i darparwyd i'r heddlu. Felly, gall data 2018-19 gynnwys penderfyniadau cyn cyhuddo sydd yn gysylltiedig ag achosion a atgyfeiriwyd gan yr heddlu i'r CPS yn 2018-19, 2017-18 neu cyn hynny. Mae hynny yn egluro pam fod swm y penderfyniadau cyn cyhuddo yn fwy na swm y derbyniadau cyn cyhuddo yn ystod yr un cyfnod.

^[1] 'Arall' yw pan fo canlyniad y penderfyniad cyhuddo yn anhysbys neu na roddwyd hynny i'r unigolyn drwgdybiedig hwnnw

Llywodraethu Troseddau Casineb

Yn 2018-19, gweithredodd Chris Long, Prif Erlynydd y Goron, fel Hyrwyddwr Trosedd Casineb y CPS, gan gysylltu'r Pencadlys a'r holl Ardaloedd CPS eraill, yn ogystal â chyfarfod â'r Grŵp Cyngori Allanol (gweler isod). Erbyn hyn mae Chris wedi cael ei benodi fel Hyrwyddwr Troseddau yn erbyn pobl hŷn.

Mae arweinwyr polisi trosedd casineb y CPS, yng Nghyfarwyddiaeth Gweithrediadau Pencadlys y CPS, yn goruchwylio'r gwaith ar droseddau casineb ar draws Ardaloedd CPS. Maent yn goruchwylio sut mae Strategaeth Trosedd Casineb yn cael ei gyflawni, yn arbennig drwy'r cynllun sicrwydd a amlinellir isod. Mae'r arweinwyr troseddau casineb cenedlaethol yn cyhoeddi cylchlythyrau rheolaidd y CPS ar droseddau casineb, gan amlinellu diweddariadau am y gwaith a wneir ar holl feysydd troseddau casineb.

Yn 2018-19 parhaodd Cydlynwyr Troseddau Casineb Ardaloedd CPS (HCC) i arwain erlyniadau troseddau casineb yn lleol a gweithio â Rheolwyr Cynhwysiant a Chyfranogiad Cymunedol Ardal (ICEM) o ran cynnal Paneli Craffu a Chyfranogi Lleol (LSIP). Mae gan yr holl Ardaloedd baneli sydd yn ymwneud â materion troseddau casineb. Yn 2018-19 cynhaliodd CPS Cymru LSIP oedd yn canolbwyntio ar Droseddau yn erbyn pobl hŷn.

Roedd yr HCCau yn gyfrifol am weithredu cyfundrefn sicrwydd troseddau casineb a bu iddynt weithio gyda'u Prif Erlynwyr y Goron yn yr Ardal o ran darparu adroddiadau ar berfformiad i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cyfreithiol Erlyniadau Cyhoeddus (DLS). Cynhaliwyd Cynadledau Rhwydwaith HCC ym Mehefin 2018 a Rhagfyr 2018 er mwyn trafod heriau cyffredin a rhannu arferion gorau.

Yn 2018-19, cynhaliodd y CPS gyfarfod cyntaf y Grŵp Cyngori Allanol ar Droseddau Casineb (ECG) sydd yn cynnwys unigolion a grwpiau arbenigol allweddol ar droseddau casineb sydd yn cynghori'r CPS ar bolisi ac ymarfer. Yn lleol, mae rhanddeiliaid yn darparu adborth ac yn cynnig cyngor ar waith achos PS a pherfformiad drwy LSIP y CPS.

Cynllun Sicrwydd Troseddau Casineb

Yn 2018-19 parhaodd Ardaloedd CPS i fonitro eu perfformiad gan ddefnyddio'r Cynllun Sicrwydd Troseddau Casineb mwyaf diweddar a'r Risgiau Sefydliadol a gytunwyd yn genedlaethol, gan asesu ystod o fesurau ar draws pob maes o droseddau casineb a rhanddeiliaid. Roedd hynny yn cynnwys dadansoddi derbyniadau cyn cyhuddo; penderfyniadau cyn cyhuddo yn cynnwys cyhuddo, NFA a chwblhau gweinyddol; deilliannau erlyn; athreuliad sydd yn gysylltiedig â materion achwynwyr yn ogystal â thystiolaeth, cyhoeddi a chofnodi ymgodiad dedfryd. Hefyd ystyriwyd tueddiadau lleol o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. Ar ôl asesu ystod eang o fesurau, paratôdd Ardaloedd CPS sylwadau ar eu hasesiad cyffredinol a nodi camau ar gyfer mynd i'r afael â'r materion a godwyd, fel bo'r angen.

Mae'r Cynllun Sicrwydd Troseddau Casineb yn un rhan yn unig o gyfundrefn ehangach o ymarferion sicrwydd ansawdd a gynhelir ar draws y sefydliad. Er enghraifft, mae cynllun tebyg wedi cael ei sefydlu er mwyn asesu ystod o fesurau cysylltiedig â VAWG. Hefyd mae gwaith yn cael ei wneud ar

wella'r broses o gofnodi proffil cydraddoldeb achwynwyr er mwyn darparu gwell data ynghylch cyffredinedd y troseddau hyn yn ôl proffil achwynwyr.

Strategaeth Cynhwysiant ac Ymgysylltu Cymunedol

Ym Mai 2018 cyhoeddwyd [Strategaeth Cynhwysiant ac Ymgysylltu Cymunedol](#). Rydym yn ymrwymedig i ymgysylltu â chymunedau yn lleol drwy Baneli Craffu a Chyfranogi Lleol ar droseddau casineb, ac yn genedlaethol drwy'r Grŵp Cyngori Allanol ar droseddau casineb. Hefyd, mae Ardaloedd CPS wedi ymgymryd â chyfres o 'Sgyrsiau Cymunedol'¹⁰ gyda nifer o randdeiliaid troseddau casineb er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'r materion a phryderon y rhai yr effeithir arnynt gan droseddu casineb o gymunedau 'nas clywir yn aml'.¹¹

Mae holl Ardaloedd CPS wedi cynnal ymarferiad mapio rhanddeiliaid cychwynnol. Mae'r ymarferiad yn cynnwys clustnodi rhanddeiliaid troseddau casineb ychwanegol gyda'r bwriad o ganfod cyfleoedd ychwanegol i weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau statudol ac anstatudol.

Cyfryngau cymdeithasol

Yn 2018-19 gweithiodd y CPS gyda'r Adran ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), y Swyddfa Gartref ac adrannau eraill y llywodraeth wrth baratoi i gyhoeddi Papur Gwyn Niwed Ar-lein. Lansiodd ymgynghoriad y Papur Gwyn yn Ebrill 2019 ac mae'n nodi cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer pecyn o fesurau, yn ddeddfwriaethol ac yn aneddfwriaethol, er mwyn cadw defnyddwyr y DU yn ddiogel ar-lein.

¹⁰ Dan arweiniad uwch arweinwyr ym mhob Ardal, mae 'Sgyrsiau Cymunedol' yn darparu mecanwaith i'r CPS ymgysylltu â chymunedau 'nas clywir yn aml'. Maent yn galluogi i aelodau'r cymunedau rannu eu pryderon. Maent hefyd yn galluogi i'r CPS egluro eu rôl yn y system cyfiawnder troseddol yn cynnwys: sut mae penderfyniadau i erlyn achosion yn cael eu gwneud, Hawl Dioddefwyr i gael Adolygiad a'r mesurau arbennig sydd ar gael i ddiodesfwyr a tystion bregus a rhai sy'n cael eu bygwth.

¹¹ Mae 'nas clywir yn aml' yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio grwpiau sydd efalla yn wynebu rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau neu a dangynrychiolir mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

Data ar Droseddau Casineb

Dolen yn ôl i'r brif adran ar droseddau casineb.

Mae'r data a ddarperir isod yn gysylltiedig â'r holl ddifinyddion a fflagiwyd mewn perthynas â throeddau casineb, ac achwynwyr. Mae data tanategol yr adran yma o'r adroddiad i'w gael yn adran troseddau casineb y data ar [wefan y CPS](#).

Yn 2018-19 bu gostyngiad o 12.5% mewn penderfyniadau cyn cyhuddo o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 13,518 i 11,826. Bu cynnydd yng nghyfran yr achosion a gyhuddwyd o 78.9% yn y flwyddyn flaenorol i 80.0%, a arweiniodd at gyhuddo 9,459 o unigolion drwgdybiedig.

Tabl 1: Canran deilliannau penderfyniadau cyn cyhuddo a gwblhawyd gan y CPS 2014-15 i 2018-19



Mae'r tabl yma yn adrodd am gynnydd bychan yng nghyfran yr achosion a Gwblhawyd yn Weinyddol ers 2016-17. Mewn perthynas â Phenderfyniadau Cyfreithiol, mae cyfran yr achosion a gyhuddwyd wedi cynyddu ychydig ers 2015-16.

	2014 - 15	2015 - 16	2016 - 17	2017 - 18	2018 - 19
Penderfyniadau Cyfreithiol (sylweddol)	93.8%	92.4%	95.3%	90.2%	91.0%
Cyhuddwyd (% y Penderfyniadau Cyfreithiol)	84.2%	84.5%	86.2%	87.5%	87.9%
<i>Dim Erlyniad (% y Penderfyniadau Cyfreithiol)</i>	14.4%	14.4%	12.8%	11.5%	11.3%
Penderfyniadau y tu allan i'r llys (% y Penderfyniadau Cyfreithiol)	1.4%	1.1%	0.5%	1.1%	0.9%
Cwblhawyd yn Weinyddol	6.1%	7.5%	4.6%	9.8%	8.9%
Arall	0.1%	0.1%	0.1%	0.0%	0.1%

Gostyngodd swm yr achosion a fflagiwyd fel troseddau casineb a gwblhawyd yn 2018-19 o 14,151 yn 2017-18 i 12,828. Mae hynny yn cynrychioli gostyngiad o 1,323 neu 9.3%.

Tabl 2: Erlyniadau troseddau casineb a gwblhawyd yn ôl deilliant

	2013-14		2014-15		2015-16		2016-17		2017-18		2018-19	
	Swm	%	Swm	%	Swm	%	Swm	%	Swm	%	Swm	%
Euogfarnau	11,915	84.7%	12,220	82.9%	12,846	83.2%	12,072	83.4%	11,987	84.7%	10,817	84.3%
Dim euogfarnau	2,159	15.3%	2,518	17.1%	2,596	16.8%	2,408	16.6%	2,164	15.3%	2,011	15.7%
Cyfanswm	14,074		14,738		15,442		14,480		14,151		12,828	



- Bu gostyngiad o 9.8% yn swm yr euogfarnau o 11,987 yn 2017–18 i 10,817 yn 2018-19, ac arhosodd y gyfradd euogfarnau yn gyson ar 84.3%. Mae hynny yn cymharu â chyfradd euogfarnau cyfartalog y CPS o 83.7% yn 2018-19.
- Cododd cyfradd yr euogfarnau o 81.9% yn 2009-10 i 84.3% yn 2018-19.
- Roedd 76.1% o'r holl ddeilliannau erlyn o ganlyniad i bledio'n euog. Mae hynny yn dangos bos ansawdd ein gwaith achos a chryfder y dystiolaeth yr ydym yn ei chyflwyno i'r llysoedd yn parhau i fod yn uchel. Mae hynny yn cymharu â chyfradd y pledion euog o 76.7% ar draws yr holl droseddau.
- O blith yr holl erlyniadau a fflagiwyd fel troseddau casineb a heriwyd mewn treial (ac eithrio pledion cymysg¹²), euogfarnwyd 67.6%, ac mae hynny yn cymharu â chyfradd o 66.5% yn 2017-18 a chyfradd genedlaethol o 61.7% ar gyfer pob trosedd.

¹²Mae 'ac eithrio pledion euog' yn achosion diffynyddion pan mai dim ond pledion 'dieuog' a gofnodir ar gyfer yr holl gyhuddiadau a bydd treial yn mynd rhagddo.

- Ni arweiniodd 2,011 o erlyniadau at euogfarn - 8.8% o ganlyniad i ollwng erlyniadau (yn cynnwys penderfyniadau i ddiddymu, tynnu'n ôl neu gynnig dim tystiolaeth), oedd yn gynydd bychan o 8.0% yn 2017-18.
- O blith yr holl achosion heb euogfarn, roedd 26.7% o ganlyniad i faterion ynghylch yr achwynydd¹³, sydd yn ostyngiad o 27.9% yn 2017-18. Mae hynny yn adlewyrchu'r camau a gymerir yn lleol er mwyn sefydlu mesurau cymorth angenrheidiol i ddiodefwyr.
- Yn 2018-19, roedd cyfran yr holl achosion heb euogfarn o ganlyniad i ryddfarn ar ôl treial yn cynrychioli 22.3% (449) o'r holl achosion heb euogfarn, oedd yn ostyngiad o 26.7% (578) yn 2017-18.
- Mae ymgodiad dedfryd a gyhoeddwyd ac a gofnodwyd mewn achos o drosedd casineb sydd yn arwain at euogfarn yn dangos yn amlwg bod y gyfraith yn cael ei chymhwyso i greu'r effaith orau. Y 2018-19 cynyddodd cyfran yr euogfarnau oedd yn cynnwys cyhoeddi a chofnodi ymgodiad dedfryd i 73.6% o 67.1% yn 2017-18. Yn unol â'r gostyngiad mewn euogfarnau a nodwyd uchod, gostyngodd swm yr ymgodiadau dedfryd i 7,620 o 7,784 yn 2017-18.
- Ar ddiwedd erlyniad, dyrennir categori prif drosedd er mwyn dangos pa fath o gyhuddiadau a gyflwynwyd a'u difrifoldeb. Mae Tabl 3 isod yn dangos mai troseddau yn erbyn yr unigolyn a throseddau trefn gyhoeddus oedd fwyaf cyffredin yn 2018-19, ar draws yr holl erlyniadau troseddau casineb yn ystod cyfnod yr adroddiad, gyda'r gyfran uchaf yn droseddau seiliedig ar hil a chrefydd. Ond yng nghyd-destun troseddau casineb ar sail anabledd, mae'n ddi-ddorol bod yr hyn ellid ei alw'n droseddu meddiangar yn fwy cyffredin na throseddau trefn gyhoeddus, a manylir ar hynny yn adran anabledd yr adroddiad.

Tabl 3: Categori prif drosedd ar gyfer pob math o drosedd casineb

Categori Prif Drosedd	Anabledd		Homoffobig a Thrawsfobig		Hiliol a Chrefyddol	
	2017-18	2018-19	2017-18	2018-19	2017-18	2018-19
Dynladdiad	0.6%	0.0%	0.3%	0.1%	0.1%	0.0%
Troseddau yn erbyn yr Unigolyn	48.1%	53.5%	56.2%	60.0%	86.8%	88.5%
Troseddau rhywiol	3.2%	3.4%	0.6%	0.4%	0.1%	0.2%
Bwrgleriaeth	7.2%	3.9%	0.3%	0.2%	0.3%	0.2%
Lladrata	9.7%	6.9%	1.2%	0.6%	0.5%	0.3%
Dwyn a thrin	8.0%	8.8%	1.7%	1.7%	1.1%	0.9%
Twyll a ffugio	9.3%	5.4%	0.2%	0.4%	0.1%	0.1%
Difrod troseddol	1.4%	3.0%	4.6%	3.4%	2.2%	2.2%
Troseddau cyffuriau	0.7%	1.3%	1.5%	2.2%	0.4%	0.5%
Troseddau trefn	11.1%	11.8%	32.8%	29.7%	7.9%	6.5%

¹³ Dim euogfarn pan fo diodefwyr yn tynnu'n ôl, yn methu â mynychu'r llys yn annisgwyl neu nad yw eu tystiolaeth yn cefnogi'r achos.

Materion Yngl

yn â Chydraddoldeb

Mae rhyw ac ethnigrwydd dioddefwyr yn cael ei gofnodi gan yr Unedau Gofal Tystion ar y System Reoli Tystion (WMS) gan ddefnyddio'r data y disgwylir i'r heddlu ei gyflenwi yn unol â'r trefniadau rhyngwyneb ar y cyd. Mae'r CPS yn adrodd ar ryw ac ethnigrwydd dioddefwyr drwy ddefnyddio data o'r WMS.

Mae adroddiad ar Droseddau Casineb y CPS yn rhoi manylion am swm y dioddefwyr yn ôl rhyw ac ethnigrwydd a'u cyfrannau, pan fo dros 80% o'r wybodaeth yn cael ei chofnodi. Os bydd dros 20% o'r data ddim yn cael ei gofnodi ni ystyrir fod y data yn ddigon cydnerth i adrodd ar y cyfrannau.

Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal gydag arweinydd NPCC ar droseddau casineb er mwyn nodi esboniadau am y gostyngiad yma. Mae'r data o 2018-19 yn awgrymu bod gwelliannau wedi cael eu gwneud. Heb ddata cywir mewn perthynas â diffynyddion a dioddefwyr, mae'n anoddach deall troseddau casineb. Mae deall troseddau casineb, y cyflawnwyr a'r dioddefwyr yn greiddiol i'n gallu i ddarparu strategaethau effeithiol er mwyn ymateb i'w hanghenion.

Rhyw

- Yn 2018-19, o blith y 12,828 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 10,441 o'r diffynyddion yn wrywaidd, 2,348 yn fenywaidd, ac ni chofnodwyd y rhyw mewn 39 achos. Pan fo rhyw o ddiffynydd wedi ei gofnodi, roedd 81.6% yn wrywaidd a 18.4% yn fenywaidd, oedd yn gynydd mewn diffynyddion benywaidd o 17.7% yn y flwyddyn flaenorol.
- Yn achos data dioddefwyr, cofnododd y System Reoli Tystion 12,051 o ddiodefwyr. O blith yr holl ddiodefwyr, roedd 6,433 (53.4%) yn wrywaidd, 4,025 (33.4%) yn fenywaidd ac ni chofnodwyd y rhyw mewn 1,593 (13.2%) o'r achosion. Cynyddodd cofnodi rhyw y diodefwyr o 71.9% yn 2017-18 i 86.8%.

Ethnigrwydd

- Yn 2018-19, categoreiddiwyd 57.9% o'r diffynyddion mewn achosion o droseddau casineb a fflagiwyd fel Gwyn (gostyngiad o 64.5% yn 2016-17), ac roedd 52.6% yn nodi eu bod yn perthyn i'r categori Prydeinig Gwyn. Nodwyd bod 6.4% o'r diffynyddion yn Ddu, gostyngiad o 7.1% ers y flwyddyn flaenorol, a nodwyd bod 4.5% yn Asiaidd, gostyngiad bychan o 4.9% ers y flwyddyn flaenorol¹⁴.
- Nid yw ethnigrwydd diodefwyr yn cael ei gofnodi mewn llai na hanner yr achosion, ac felly nid yw'r data wedi ei gofnodi yn yr adroddiad yma. Oherwydd bod y CPS yn dibynnu ar wybodaeth am ddiodefwyr a gesglir ac a drosglwyddir gan yr heddlu, bydd angen cymryd mwy o gamau ar y cyd er mwyn sicrhau proses fwy cydnerth o gofnodi rhyw.

Oedran

¹⁴ Ni nododd 17.7% o'r diffynyddion beth oedd eu hethnigrwydd pan y'u harestiwyd (cynnydd o 6.3 pwynt canran ers 2017-18) ac ni ddarparwyd ethnigrwydd 10.4% o'r diffynyddion i'r CPS gan yr heddlu (cynnydd o 1.5 pwynt canran ers 2017-18).

- O blith y diffynyddion hynny pan gofnodwyd eu hoedran, roedd y rhan fwyaf o'r diffynyddion rhwng 25-59 oed (72.2%) a 18-24 (16.7%). Roedd 24.2% o'r diffynyddion (3,097) yn 24 oed neu iau, ac roedd 833 (6.5%) o'r diffynyddion yn 14-17 oed a 127 (1.0%) yn 10-13 oed.
- O blith y dioddefwyr hynny pan gofnodwyd eu hoedran¹⁵, roedd y rhan fwyaf rhwng 25-59 oed (76.7%) a 18-24 (13.9%). Roedd 17.5% o'r dioddefwyr (1,955) yn 24 oed neu iau, ac roedd 310 (2.8%) o'r dioddefwyr yn 14-17 oed a 88 (0.8%) yn 10-13 oed, a 6 o dan 10 o (0.1%).

Hil a chrefydd



- Gostyngodd swm penderfyniadau cyn cyhuddo mewn perthynas â throeddau casineb seiliedig ar hil a chrefydd o 11,200 yn 2017–18 i 9,654, gostyngiad o 1,546 o atgyfeiriadau (13.8%). O blith y rhain, cyhuddwyd 80.5% (cynnydd o'r 79.6% y flwyddyn flaenorol) a arweiniodd at gyhuddo 7,767 o unigolion drwgdybiedig (gostyngiad o 12.9% ers 2017-18).
- Gostyngodd nifer yr erlyniadau¹⁶ a gwblhawyd o 11,881 yn 2017-18 i 10,536 yn -19; gostyngiad o 1,345 o ddiffynyddion (11.3%).
- Mae yna amrywiadau rhwng troeddau seiliedig ar hil a seiliedig ar grefydd, a amlinellir yn yr adrannau isod.

Tabl 4: Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl deilliannau ar gyfer troeddau seiliedig ar hil a chrefydd

	2013-14		2014-15		2015-16		2016-17		2017-18		2018-19	
	Swm	%	Swm	%	Swm	%	Swm	%	Swm	%	Swm	%
Euogfarnau	10,532	85.2%	10,680	83.5%	10,920	83.8%	10,061	83.8%	10,141	85.4%	8,923	84.7%
Dim euogfarnau	1,836	14.8%	2,115	16.5%	2,112	16.2%	1,943	16.2%	1,740	14.6%	1,613	15.3%
Cyfanswm	12,368		12,795		13,032		12,004		11,881		10,536	

¹⁵ Cofnodwyd 92.9% o oedranau dioddefwyr yn 2018-19 - yr un faint ag yn 2017-18.

¹⁶ Noder mae nifer y diffynyddion a gyhuddwyd yn cynnwys yr achosion hynny, yn ôl unigolion drwgdybiedig, a drosglwyddwyd i'r CPS yn ystod 2018-19 ar gyfer penderfyniadau cyhuddo, ac ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol o ran rhifau â'r rhai a erlynwyd sydd yn cynnwys achosion, yn ôl diffynyddion, a gwblhawyd yn ystod 2018-19. 2018–19.



- Gostyngodd nifer yr erlyniadau o 10,141 yn 2017-18 i 8,923 yn -19; gostyngiad o 1,218 o erlyniadau (12.0%). Gostyngodd cyfradd yr euogfarnau ychydig o 85.4% yn 2017-18 i 84.7% yn 2018-19. Mae hynny yn cymharu â chyfradd euogfarnau cyfartalog cyfun y CPS o 83.7% yn 2018-19.
- Cododd cyfradd yr euogfarnau o 82.4% yn 2009-10 i 84.7% yn 2018-19.
- Yn 2018 -19, arhosodd canran y pledion euog yn gyson ar 76.4%. Hefyd roedd yna 69.8% o erlyniadau o blith yr holl erlyniadau a fflagiwyd fel troseddau seiliedig ar hil a chrefydd a heriwyd mewn treial (ac eithrio pledion cymysg), o'i gymharu â 68.3% yn y flwyddyn flaenorol.¹⁷
- Yn 2018-19, roedd cyfran yr holl achosion heb euogfarn o ganlyniad i faterion yn ymwneud ag achwynwyr yn 26.6% (429) sydd yn welliant ar y 27.4% (477) yn 2017-18.
- Yn 2018-19, roedd cyfran yr holl achosion heb euogfarn o ganlyniad i ryddfarn ar ôl treial yn 20.6% (332) sydd yn welliant ar y 25.7% (447) yn 2017-18.

¹⁷ Mae 'ac eithrio pledion euog yn achosion diffynyddion pan mai dim ond pledion 'dieuog' a gofnodir ar gyfer yr holl gyhuddiadau a bydd treial yn mynd rhagddo

- Mae ymgodiad dedfryd a gyhoeddwyd ac a gofnodwyd mewn achos o drosedd casineb sydd yn arwain at euogfarn yn dangos yn amlwg bod y gyfraith yn cael ei chymhwyso i greu'r effaith orau. Yn 2018-19 cynyddodd cyfran yr erlyniadau a gwblhawyd yn llwyddiannus oedd yn cynnwys cyhoeddi a chofnodi ymgodiad dedfryd i 76.3% o 69.9% yn 2017-18. Yn unol â'r gostyngiad mewn euogfarnau a nodwyd uchod, gostyngodd swm yr ymgodiadau dedfryd i 6,529 o 6,864 yn 2017-18.

Materion Yngl

ÿn â Chydraddoldeb

Rhyw

- Yn 2018-19, o blith y 10,536 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 8,573 o'r diffynyddion yn wrywaidd, 1,934 yn fenywaidd, ac ni chofnodwyd y rhyw mewn 29 (0.3%) achos. Pan fo rhyw o ddiffynydd wedi ei gofnodi, roedd 81.6% yn wrywaidd a 18.4% yn fenywaidd, oedd yn gynydd bychan mewn diffynyddion benywaidd o 17.7% yn y flwyddyn flaenorol.
- Yn achos data dioddefwyr, cofnododd y System Reoli Tystion 973 o ddiodefwyr. O blith yr holl ddiodefwyr roedd 5,395 (54.1%) yn wrywaidd, 3,222 (32.3%) yn fenywaidd ac ni chofnodwyd rhyw ar gyfer 1,356 (13.6%) o'r diodefwyr. Roedd y broses o gofnodi rhyw diodefwyr wedi gwella o 70.4% yn 2017-18 i 86.4%, ac felly mae'r data yn ddigon cydnerth i gyfrifo cyfrannau yn ôl rhyw yn gywir.

Ethnigrwydd

- Yn 2018-19 roedd 57.2% o'r diffynyddion mewn achosion a fflagiwyd fel rhai seiliedig ar hil neu grefydd wedi eu categoreiddio fel Gwyn (gostyngiad o 64.4% yn 2017-18), gyda 51.8% yn nodi eu bod yn perthyn i gategori Prydeinig Gwyn; nodwyd bod 6.6% o'r diffynyddion yn Ddu, i lawr i 7.2% yn 2017-18; a nodwyd bod 4.8% yn Asiaidd, gostyngiad bychan o 5.1% ers y flwyddyn flaenorol¹⁸.
- Nid yw ethnigrwydd diodefwyr yn dal i gael ei gofnodi mewn 45.6% o'r achosion ac felly nid yw'r data wedi ei gynnwys yn yr adroddiad yma.

Oedran

- O blith y diffynyddion hynny pan gofnodwyd eu hoedran, roedd y rhan fwyaf o'r diffynyddion rhwng 25-59 oed (72.6%) a 18-24 (16.7%). Roedd 23.8% o'r diffynyddion (2,504) yn 24 oed neu iau, ac roedd 643 (6.1%) o'r diffynyddion yn 14-17 oed a 106 (1.0%) yn 10-13 oed.
- O blith y diodefwyr hynny pan gofnodwyd eu hoedran, roedd y rhan fwyaf rhwng 25-59 oed (78.4%) a 18-24 (13.3%). Roedd 16.6% o'r diodefwyr (1,540) yn 24 oed neu iau, ac roedd 235 (2.5%) o'r diodefwyr yn 14-17 oed a 71 (0.8%) yn 10-13 oed, a 4 o dan 10 o (0.0%).

Troseddau seiliedig ar hil

¹⁸ Ni nododd 17.6% o'r diffynyddion beth oedd eu hethnigrwydd pan y'u harestiwyd (cynnydd o 6.3 pwynt canran ers 2017-18) ac ni ddarparwyd ethnigrwydd 10.6% o'r diffynyddion i'r CPS gan yr heddlu (cynnydd o 1.8 pwynt canran ers 2017-18).

- Yn 2018-19 bu gostyngiad o 13.2% mewn penderfyniadau cyn cyhuddo o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 10,472 i 9,088. Bu cynnydd bychan yng nghyfran yr achosion a gyhuddwyd o 79.7% i 80.9%, a arweiniodd at gyhuddo 7,348 o unigolion drwgdybiedig.

Tabl 5: Canran deilliannau penderfyniadau cyn cyhuddo a gwblhawyd gan y CPS 2014-15 i 2018-19



Mae'r tabl yma yn adrodd am gynnydd bychan yng nghyfran yr achosion a Gwblhawyd yn Weinyddol ers 2017-18. Mewn perthynas â Phenderfyniadau Cyfreithiol, mae cyfran yr achosion a gyhuddwyd wedi gostwng ychydig ers 2017-18.

	2014 - 15	2015 - 16	2016 - 17	2017 - 18	2018 - 19
Penderfyniadau Cyfreithiol (sylweddol)	93.6%	92.4%	95.5%	90.0%	91.2%
Cyhuddwyd (% y Penderfyniadau Cyfreithiol)	85.1%	85.5%	87.0%	88.5%	88.6%
<i>Dim Erlyniad (% y Penderfyniadau Cyfreithiol)</i>	<i>13.4%</i>	<i>13.4%</i>	<i>12.0%</i>	<i>10.4%</i>	<i>10.6%</i>
Penderfyniadau y tu allan i'r llys (% y Penderfyniadau Cyfreithiol)	1.5%	1.1%	1.0%	1.1%	0.8%
Cwblhawyd yn Weinyddol	6.4%	7.6%	4.5%	10.0%	8.7%
Arall	0.1%	0.0%	0.0%	0.0%	0.1%

- Gostyngodd swm yr erlyniadau a gwblhawyd o 11,061 yn 2017-18 i 9,931. Mae hynny yn cynrychioli gostyngiad o 1.130 neu 10.2%.

Tabl 6: Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl deilliannau ar gyfer troseddau seiliedig ar hil

	2013-14		2014-15		2015-16		2016-17		2017-18		2018-19	
	Swm	%	Swm	%	Swm	%	Swm	%	Swm	%	Swm	%
Euogfarnau	10,069	85.2%	10,123	83.5%	10,337	84.1%	9,583	84.0%	9,450	85.4%	8,416	84.7%
Dim euogfarnau	1,749	14.8%	2,007	16.5%	1,958	15.9%	1,828	16.0%	1,611	14.6%	1,515	15.3%
Cyfanswm	11,818		12,130		12,295		11,411		11,061		9,931	



- Bu gostyngiad o 10.9% yn swm yr euogfarnau o 9,450 yn 2017–18 i 8,416 yn 2018-19, a gostyngodd y gyfradd euogfarnau o 84.7% i 85.4% 2017 -18.
- Cododd cyfradd yr euogfarnau yn sylweddol o 82.4% yn 2009-10 i 84.7% yn 2018-19.
- Yn 2018-19 roedd 76.5% o holl euogfarnau deilliannau erlyniad o ganlyniad i bledion euog, ac o'r holl erlyniadau seiliedig ar hil a heriwyd mewn treial (ac eithrio pledion cymysg) euogfarnwyd 69.6% o'i gymharu â 68.3% yn 2017-18.
- Ni arweiniodd 1,515 o erlyniadau at euogfarn - 8.5% o ganlyniad i ollwng erlyniadau (yn cynnwys penderfyniadau i ddiddymu, tynnu'n ôl neu gynnig dim tystiolaeth), oedd yn gynydd o 7.5% yn 2017-18.
- O blith yr holl achosion heb euogfarn, roedd 26.7 % o ganlyniad i faterion ynghylch yr achwynydd, sydd yn ostyngiad o 27.6% yn 2017-18.

- Yn 2018-19, roedd cyfran yr holl achosion heb euogfarn o ganlyniad i ryddfarn ar ôl treial yn cynrychioli 20.8% (315) o'r holl achosion heb euogfarn, oedd yn ostyngiad sylweddol o 25.3% (408) yn 2017-18.
- Yn 2018-19 cyhoeddwyd a chofnodwyd ymgodiadau dedfryd mewn 76.3% o'r holl achosion, oedd yn gynydd o 69.9% yn 2017-18.

Troseddau seiliedig ar hil

- Yn 2018-19 bu gostyngiad o 22.3% mewn penderfyniadau cyn cyhuddo o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 728 i 566. Bu gostyngiad yng nghyfran yr achosion a gyhuddwyd o 78.4% yn 2017-18 i 74.0% yn 2018-19, a arweiniodd at 419 o unigolion drwgdybiedig yn cael eu cyhuddo (gostyngiad o 152 ers 2017-18).

Tabl 7: Canran deilliannau penderfyniadau cyn cyhuddo a gwblhawyd gan y CPS 2014-15 i 2018-19



Mae'r tabl yma yn adrodd am gynydd bychan yng nghyfran yr achosion a Gwblhawyd yn Weinyddol ers 2016-17. Mewn perthynas â Phenderfyniadau Cyfreithiol, mae cyfran yr achosion a gyhuddwyd wedi gostwng ers 2016-17.

	2014 - 15	2015 - 16	2016 - 17	2017 - 18	2018 - 19
Penderfyniadau Cyfreithiol (sylweddol)	93.7%	93.4%	95.1%	92.3%	89.9%
Cyhuddwyd (% y Penderfyniadau Cyfreithiol)	81.2%	83.7%	87.4%	85.0%	82.3%
<i>Dim Erlyniad (% y Penderfyniadau Cyfreithiol)</i>	<i>17.8%</i>	<i>15.0%</i>	<i>12.4%</i>	<i>14.3%</i>	<i>16.1%</i>
Penderfyniadau y tu allan i'r llys (% y Penderfyniadau Cyfreithiol)	1.0%	1.3%	0.2%	0.7%	1.6%
Cwblhawyd yn Weinyddol	6.1%	6.5%	4.9%	7.6%	10.1%
Arall	0.2%	0.2%	0.0%	0.1%	0.0%

- Gostyngodd swm yr erlyniadau a gwblhawyd a fflagiwyd fel rhai seiliedig ar hil o 820 yn 2017-18 i 605 2018 -19. Mae hynny yn cynrychioli gostyngiad o 215 neu 26.2%.

Tabl 8: Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl deilliannau ar gyfer troseddau seiliedig ar grefydd

	2013-14		2014-15		2015-16		2016-17		2017-18		2018-19	
	Swm	%	Swm	%	Swm	%	Swm	%	Swm	%	Swm	%
Euogfarnau	463	84.2%	557	83.8%	583	79.1%	478	80.6%	691	84.3%	507	83.8%
Dim euogfarnau	87	15.8%	108	16.2%	154	20.9%	115	19.4%	129	15.7%	98	16.2%
Cyfanswm	550		665		737		593		820		605	



- Bu gostyngiad o 26.6% yn swm yr euogfarnau o 691 yn 2017–18 i 507 yn 2018-19, a gostyngodd y gyfradd euogfarnau o 84.3% yn 2017 -18 i 83.8%.
- Cododd cyfradd yr euogfarnau ychydig o 83.2% yn 2009-10 i 83.8% yn 2018-19.
- Yn 2018-19 plediodd 74.9% o'r holl ddiffynyddion yn euog, ac o blith yr holl erlyniadau a heriwyd mewn treial (ac eithrio pledion cymysg), euogfarnwyd 72.2% o'i gymharu â 68.1% y flwyddyn flaenorol.
- Roedd cyfran yr achosion oedd yn methu o ganlyniad i faterion ynghylch achwynwyr yn 24.8% (32) o'r holl achosion heb euogfarn yn 2017-18. Yn 2018-19, roedd y ffigur wedi gostwng i 24.5% (24). Mae angen cymryd gofal gyda niferoedd mor fach.
- Yn 2018-19, roedd cyfran yr holl achosion heb euogfarn o ganlyniad i ryddfarn ar ôl treial yn cynrychioli 17.3% (17) o'r holl achosion heb euogfarn, oedd yn ostyngiad o 30.2% (39) yn 2017-18.

- Y 2018-19 roedd cyfran yr achosion seiliedig ar grefydd a arweiniodd at euogfarnau oedd yn cynnwys cyhoeddi a chofnodi ymgodiad dedfryd y 73.6% oedd yn gynydd o 69.2% yn 2017-18.


Troseddau casineb homoffobig, deuffobig a thrawsffobig


Noder na adroddwyd ar wahân ar ddata perfformiad y CPS ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Trawsrywiol cyn 2012 pan newidiodd y gyfraith er mwyn ymgorffori troseddau casineb trawsffobig.

- Cynyddodd swm yr holl achosion a fflagiwyd fel penderfyniadau cyn cyhuddo homoffobig, deuffobig a thrawsffobig i 1,656 o'i gymharu â 1,564 yn 2017-18, sydd yn gynydd o 92 o atgyfeiriadau (5.9%). O blith y rhain cyhuddwyd 79.4% (cynnydd o'r 77.9% y flwyddyn flaenorol) a arweiniodd at gyhuddo 1,315 o unigolion drwgdybiedig (cynnydd o 7.9% ers 2017-18).
- Ar ôl eu gwahanu, mae'r data ar gyfer pob maes yn dangos bod y cynnydd yma ond wedi digwydd yn achos troseddau homoffobig yn unig. Ond mae'n rhaid pwylllo wrth ddelio â'r niferoedd bychan sydd yn gysylltiedig â throseddau trawsffobig.
- Bu cynnydd o 12.8% yn swm yr erlyniadau a gwblhawyd o 1,518 i 1,713 yn 2018-19.

Tabl 9: Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl deilliannau ar gyfer troseddau homoffobig a thrawsffobig

	2013-14		2014-15		2015-16		2016-17		2017-18		2018-19	
	Swm	%	Swm	%	Swm	%	Swm	%	Swm	%	Swm	%
Euogfarnau	913	80.7%	1,037	81.2%	1,219	83.0%	1,211	82.5%	1,282	84.5%	1,475	86.1%
Dim euogfarnau	219	19.3%	240	18.8%	250	17.0%	256	17.5%	236	15.5%	238	13.9%
Cyfanswm	1,132		1,277		1,469		1,467		1,518		1,713	





- Cynyddodd nifer yr erlyniadau o 1,282 yn 2017-18 i 1,475 yn -19; cynnydd o 193 o erlyniadau (15.1%). Cynyddodd canran yr euogfarnau o 85.4% yn 2017-18 i 86.1% yn 2018-19.
- Yn 2018 -19, cynyddodd canran y pledion euog yn sylweddol i 78.3%. Hefyd, arweiniodd 64.4% o'r holl erlyniadau a fflagiwyd fel troseddau casineb homoffobig, deuffobig a thrawsffobig a heriwyd mewn treial (ac eithrio pledion cymysg¹⁹) at euogfarnau, o'i gymharu â 63.4% yn 2017-18.
- Yn 2018-19, roedd cyfran yr holl achosion heb euogfarn o ganlyniad i faterion yn ymwneud ag achwynwyr yn 23.5% (56) sydd yn welliant sylweddol ar y 32.2% (76) yn 2017-18.
- Yn 2017-18, gwellodd cyfran yr holl achosion heb euogfarn o ganlyniad i ryddfarn ar ôl treial a nifer yr achosion yr effeithiwyd arnynt, o 30.1% (71) yn 2017-18 i 26.9% (64) yn 2018-19.
- Mae ymgodiad dedfryd a gyhoeddwyd ac a gofnodwyd mewn achos o drosedd casineb sydd yn arwain at euogfarn yn dangos yn amlwg bod y gyfraith yn cael ei chymhwyso i greu'r effaith orau. Yn 2018-19 cynyddodd cyfran yr erlyniadau a gwblhawyd yn llwyddiannus oedd yn cynnwys cyhoeddi a chofnodi ymgodiad dedfryd i 69.9% o 63.8% yn 2017-18. Yn unol â'r cynnydd mewn euogfarnau a nodwyd uchod, cynyddodd swm yr ymgodiadau dedfryd i 984 o 787 yn 2017-18.

Materion Yngl

ÿn â Chydraddoldeb

Rhyw

- Yn 2018-19, o blith y 1,713 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 1,444 o'r diffynyddion yn wrywaidd, 259 yn fenywaidd, ac ni chofnodwyd y rhyw mewn 10 achos. Pan fo rhyw o ddiffynnydd wedi ei gofnodi, roedd 84.8% yn wrywaidd a 15.2% yn fenywaidd, oedd yn gynydd mewn diffynyddion benywaidd o 13.5% yn y flwyddyn flaenorol.

¹⁹ Mae 'ac eithrio pledion euog yn achosion diffynyddion pan mai dim ond pledion 'dieuog' a gofnodir ar gyfer yr holl gyhuddiadau a bydd treial yn mynd rhagddo.

- Yn achos data dioddefwyr, cofnododd y System Reoli Tystion 1,526 o ddiodesfwyr. O blith yr holl ddiodesfwyr, roedd 779 (51.0%) yn wrywaidd, 567 (37.2%) yn fenywaidd ac ni chofnodwyd y rhyw mewn 180 (11.8%) o'r achosion. Roedd y broses o gofnodi rhyw diodesfwyr wedi gwella o 77.5% yn 2017-18 i 88.2% yn 2018-19 ac felly mae'r data yn ddigon cydnherth i gyfrifo cyfrannau yn ôl rhyw yn gywir.

Ethnigrwydd

- Yn 2018-19, categoreiddiwyd 59.6% o'r diffynyddion mewn achosion a fflagiwyd fel troseddau homoffobig, deuffobig a thrawsffobig fel Gwyn (gostyngiad o 63.0% yn 2017-18), ac roedd 55.2% yn nodi eu bod yn perthyn i'r categori Prydeinig Gwyn. Nodwyd bod 5.6% o'r diffynyddion yn Ddu, o'i gymharu â 7.6% y flwyddyn flaenorol, a nodwyd bod 3.6% yn Asiaidd, gostyngiad o 4.2% ers y flwyddyn flaenorol.
- Nid yw ethnigrwydd diodesfwyr yn cael ei gofnodi mewn llai na hanner (43.9%) yr achosion, ac felly nid yw'r data wedi ei gofnodi yn yr adroddiad yma.

Oedran

- O blith y diffynyddion hynny pan gofnodwyd eu hoedran, roedd y rhan fwyaf o'r diffynyddion rhwng 25-59 oed (71.5%) a 18-24 (17.7%). Roedd 25.9% o'r diffynyddion (444) yn 24 oed neu iau, ac roedd 131 (7.7%) o'r diffynyddion yn 14-17 oed. 10 (0.6%) yn 10-13 oed, a 0 o dan 10.
- O blith y diodesfwyr hynny pan gofnodwyd eu hoedran, roedd y rhan fwyaf rhwng 25-59 oed (72.6%) a 18-24 (18.4%). Roedd 23.2% o'r diodesfwyr (328) yn 24 oed neu iau, ac roedd 54 (3.8%) o'r diodesfwyr yn 14-17 oed a 14 (1.0%) yn 10-13 oed, a 0 o dan 10.

Troseddau Trawsffobig

